# Llais Ogwan

Papur Bro Dyffryn Ogwen

**Rhifyn 537 · Rhagfyr 2022 · 50c**

# Bywyd Normal yn ei ôl!

Er bod y Covid yn dal i lechu yn y cysgodion, mae bywyd, mwy na heb, wedi dychwelyd i'r hyn ydoedd yn Nyffryn Ogwen cyn y pandemig. Diolch am hynny meddai pawb ohonom! Yr ysgolion, y capeli a'r eglwysi, chwaraeon, siopau, busnesau, tafarnau, clybiau, cyngherddau, dramau, boreau a nosweithiau coffi, bingo, cymdeithasau a phwyllgorau amrywiol, yn ôl wyneb yn wyneb, (Yn hytrach nag ar Zoom, a fu'n "gymorth hawdd ei gael mewn cyfyngder"). Ac fe fydd y Nadolig yn fwy normal nag y bu ers 3 mlynedd, gyda mwy o deuluoedd nag o'r blaen yn medru dod at ei gilydd i ddathlu'r Ŵyl eleni.

## Steddfod Dyffryn Ogwen yn ei hôl!



Dyma lun o'r gynulleidfa gref yn neuadd Ysgol Dyffryn Ogwen bnawn Sadwrn sydd yn dangos fod yna groeso mawr i'r Steddfod wedi absenoldeb o dair blynedd!



Dyma rai o aelodau Côr 1, Ysgol Llanllechid yn codi'r cwpan ar ôl iddynt ennill cystadleuaeth y Corau.

### Gweddi'r Nadolig

Chwyth awel i dawelu – ein hofnau
'R ôl cyfnod o gelu;
Yn nes er lles down yn llu
Yn unol i'th foliannu.

*Dilwyn Owen*

## Gwasanaeth Nadolig Cymunedol

yng Nghapel Jerusalem
**Nos Sul, Rhagfyr 18**
**am 7.00yh**
Dewch i ddathlu'r Ŵyl yng nghwmni

**Côr Meibion y Penrhyn**
**Côr Ysgol Dyffryn Ogwen**
**ynghyd ag unawdwyr**

"Mynediad am ddim"
Gwneir casgliad tuag at achos da
Croeso cynnes i bawb

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i holl ddarllenwyr y Llais.

# Llais Ogwan

## Rhif 537
Rhagfyr 2022


**Panel Golygyddol**

**Ieuan Wyn**
(Ffôn 600297)
ieuanwyn01@gmail.com
**Lowri Roberts**
(Ffôn 07815 093955)
l.roberts11@btinternet.com
**Neville Hughes**
(Ffôn 600853)
nev_hughes@btinternet.com
**Dewi A Morgan**
(Ffôn 602440)
dewimorgan@live.co.uk
**Trystan Pritchard**
(Ffôn 07402 373444)
trystanrp1@gmail.com
**Walter a Menai Williams**
(Ffôn 601167)
waltermenai@yahoo.co.uk
**Rhodri Llŷr Evans**
(Ffôn 07713 865452)
Rhodri.llyr.evans@gmail.com
**Owain Evans**
(Ffôn 07588 636259)
owain.evans1@gmail.com
**Carwyn Meredydd**
(Ffôn 07867 536102)
carwynian@hotmail.com
**Rhys Llwyd**
(Ffôn 01248 601606) rmll42@live.co.uk
**Catrin Wager**
(Ffôn 07930 280075)
catrinwager@yahoo.co.uk

**Swyddogion**

**CADEIRYDD**
Dewi A Morgan, Park Villa,
Lôn Newydd Coetmor,
Bethesda, Gwynedd
LL57 3DT (Ffôn 602440)
dewimorgan@live.co.uk

**TREFNYDD HYSBYSEBION**
Neville Hughes, 14 Pant,
Bethesda LL57 3PA (Ffôn 600853)
nev_hughes@btinternet.com

**YSGRIFENNYDD**
Gareth Llwyd, Talgarnedd,
3 Sgwâr Buddug, Bethesda
LL57 3AH (Ffôn 601415)
garethllwyd197@btinternet.com

**TRYSORYDD:**
Paul Rowlinson, Crud yr Awel,
Lôn Newydd, Coetmor,
Bethesda LL57 3DT
(Ffôn 01248 605365 / 07949 034967)
PaulJRowlinson@outlook.com


**Y Llais drwy'r post:**

Owen G Jones, 1 Erw Las,
Bethesda, Gwynedd
LL57 3NN (Ffôn 600184)
post@llaisogwan.com

## Golygydd y Mis

Golygwyd rhifyn y mis hwn gan
**Neville Hughes.**

Y golygydd ym mis **Ionawr** fydd
**Rhodri Llŷr Evans**
2 Rhos y Nant, Bethesda, LL57 3PP
07713 865452
E-bost: Rhodri.llyr.evans@gmail.com

Pob deunydd i law erbyn **dydd Sadwrn, 31 Rhagfyr** os gwelwch yn dda.
Casglu a dosbarthu **Nos Iau, 19 Ionawr,** yng Nghanolfan Cefnfaes am 6.45

**DALIER SYLW:** NID OES GWARANT Y BYDD UNRHYW DDEUNYDD FYDD YN CYRRAEDD AR ÔL Y DYDDIAD CAU YN CAEL EI GYNNWYS.

## CLWB CYFEILLION

**Gwobrau Rhagfyr**

| | | |
|---|---|---|
| £30.00 | (18) | Huw Davies, Gerlan. |
| £20.00 | (123) | Dilys Jones, Cefn y Bryn, Bethesda. |
| £10.00 | (130) | Wynne ap Iorwerth, Mynydd Llandygai. |
| £5.00 | (154) | Fred Buckley, Tregarth. |

**Gwobrau Blynyddol Arbennig**

| | | |
|---|---|---|
| £100.00 | (150) | Myfanwy Harper, Llandygai. |
| £60.00 | (111) | Gwen Davies, Tanysgrafell. |
| £40.00 | (127) | Gaynor Elis-Williams, Ffordd Carneddi. |
| £20.00 | (110) | Dafydd Owen, Rachub. |

## Llais Ogwan ar CD

Gellir cael copi trwy gysylltu â swyddfa Cymdeithas Deillion Gogledd Cymru, Bangor (01248 353604).

Os gwyddoch am rywun sy'n cael trafferth â'i olwg, ac a hoffai dderbyn copi o'r Llais ar CD bob mis, cysylltwch ag un o'r canlynol:
**Gareth Llwyd** – 601415
**Neville Hughes** – 600853

## Archebu trwy'r post

**Gwledydd Prydain** – £22
**Ewrop** – £30
**Gweddill y Byd** – £40
Owen G. Jones, 1 Erw Las, Bethesda,
Gwynedd LL57 3NN
post@llaisogwan.com
01248 600184

## Dyddiadur y Dyffryn

**Rhagfyr**
17 Hosan Lawen. Neuadd Ogwen am 6.00.
18 Gwasanaeth Nadolig Cymunedol. Capel Jerusalem am 7.00.
18 Gwasanaeth Naw Llith a Charol. Eglwys Sant Tegai am 6.00
18 Dathlu'r Dolig. Capel Bethlehem, Talybont am 2.00
19 Cyngerdd Nadolig Ysgol Llanllechid yn Pontio, Bangor.
25 Gwasanaeth Bore'r Nadolig. Capel Carmel, Llanllechid am 10.00.
27 Gig Nadolig Celt. Neuadd Ogwen.

**Ionawr**
9 Cymdeithas Hanes Dyffryn Ogwen. Festri Jerusalem am 7.00.
12 Y Gymdeithas. Noson yng nghwmni Ieuan Wyn. Festri Jerusalem am 7.00.
14 Marchnad Ogwen. Neuadd Ogwen. 9.30 – 1.00.
15 Gwasanaeth Plygain. Capel Jerusalem, Bethesda am 6.00.
19 Noson Gasglu a Dosbarthu Llais Ogwan. Cefnfaes am 6.45.




Mae J. Elwyn Hughes yn ymddiheuro am fethu cynnwys ei golofn arferol, 'Pwy Syn Cofio Ddoe?' yn y Llais y tro hwn, oherwydd anhwylder.

Mae hefyd, yn ddiolchgar iawn i bawb am yr holl alwadau ffôn a'r dymuniadau da a dderbyniodd yn ystod y cyfnod diwethaf.



Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru

# Apêl am siaradwyr Cymraeg i sgwrsio gyda dysgwyr

Mae'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol yn chwilio am siaradwyr Cymraeg i ymuno yn eu cynllun 'Siarad', sy'n paru siaradwyr Cymraeg gyda dysgwyr.

Mae cannoedd o ddysgwyr ledled Cymru eisoes yn rhan o'r cynllun, ac wedi eu paru, ond mae cannoedd mwy ar restr wrth gefn, yn aros i gael eu paru.

Nod y cynllun ydy rhoi cyfle i ddysgwyr fagu hyder trwy sgwrsio trwy gyfrwng y Gymraeg a'u cyflwyno i gyfleoedd i ddefnyddio eu Cymraeg yn lleol.

Un o'r siaradwyr sydd wedi bod yn rhan o'r cynllun ers blynyddoedd yw'r gyflwynwraig deledu a'r tiwtor Cymraeg, Nia Parry.

Dywedodd, "Os ydych chi'n ystyried cymryd rhan yn y cynllun, mi fyddwn yn eich annog i fynd amdani – heb os. Mae bywyd yn brysur ond efallai y gallech roi ychydig o amser dros ginio, unwaith yr wythnos.

"Mae na dri chant o bobl yn disgwyl am bartner siarad, felly mi allech chi wneud gwahaniaeth mawr i daith person sy'n dysgu Cymraeg efo 'chydig iawn o ymdrech.

"Dw i wedi mwynhau y profiad yn fawr ac mae meddwl am gael sgwrsio gyda Sarah, fy mhartner siarad, wastad yn codi fy nghalon."

Ychwangeodd partner siarad Nia, Sarah Roberts, sy'n athrawes lanw yn Mochdre, "Dw i'n siarad Cymraeg gyda thiwtoriaid a rhai o staff yr ysgol, ond dw i ddim yn cael llawer o gyfle i siarad Cymraeg yn fy mywyd bob dydd.  Mi oeddwn i eisiau profiad o siarad am bethau arferol a chael hwyl.

"Mae'n hyfryd iawn cael siarad efo rhywun sy'n rhugl. Mae'n neis siarad efo dysgwyr eraill ond mae'n well gyda pherson rhugl."

Ychwanegodd Helen Prosser, Cyfarwyddwr Dysgu ac Addysgu'r Ganolfan Dysgu Cymraeg, "Wrth ddysgu unrhyw sgil newydd, mae angen ymarfer.  A dyw dysgu iaith ddim yn eithriad.

"Felly, roeddem ni eisiau rhoi cyfle i siaradwyr newydd sgwrsio rhwng gwersi ond hefyd eu cyflwyno i gyfleodd yn y gymuned i siarad Cymraeg.

"Rydym yn gofyn am ymrwymiad o 10 awr – ac mi all hynny fod tra'n sgwrsio dros baned, mewn gêm bêl-droed, yn y côr, wrth fynd am dro neu lle bynnag sy'n apelio."

Mae galw am bobl ar draws Cymru ac mae modd cofrestru trwy ymweld â gwefan dysgucymraeg.cymru neu e-bostio swyddfa@dysgucymraeg.cymru

# Parcio am ddim yng Ngwynedd i annog siopa'n lleol y Nadolig hwn

Fel rhan o ymdrechion i gefnogi busnesau lleol y Nadolig yma, bydd parcio am ddim yn holl feysydd parcio Cyngor Gwynedd ar ôl 11am bob dydd rhwng 10 a 27 Rhagfyr.

Mae'r Cyngor yn annog pobl Gwynedd i gefnogi busnesau lleol y sir dros gyfnod y Nadolig - cyfnod sydd mor allweddol i'r sector siopau ac adloniant.

Dywedodd y Cynghorydd Dafydd Meurig, Aelod Cabinet Amgylchedd y Cyngor:

"Rydan ni'n annog pobl i gefnogi'r busnesau bach sy'n asgwrn cefn canol ein trefi, yn lle mynd am dripiau siopa i'r dinasoedd mawr neu chwyddo coffrau'r corfforaethau mawr ar-lein.

"Fe gofiwn fod llawer o fusnesau lleol wedi mynd yr ail filltir i gefnogi'n cymunedau yn ystod y pandemig.

"Felly, os ydych chi'n chwilio am anrhegion arbennig, yn prynu bwyd a diod ar gyfer y tymor gwyliau neu'n paratoi at wledd i ddathlu – cofiwch am y cyfoeth o fusnesau bach a chrefftwyr yma yng Ngwynedd, a manteisiwch ar y parcio am ddim."

Mae gwybodaeth am yr amrywiaeth o ddanteithion sydd ar gael o lawer iawn o fusnesau Gwynedd i'w gweld yma: www.visitsnowdonia.info/cy/siopau-cynnyrch-lleol

Bydd parcio am ddim ym meysydd parcio cyhoeddus Cyngor Gwynedd ar ôl 11am bob dydd rhwng 10 a 27 Rhagfyr, gyda ffioedd yn ail-gychwyn o 28 Rhagfyr.

Ymgyrch ym meysydd parcio cyhoeddus Cyngor Gwynedd ydi hwn. Bydd arwydd ar bob peiriant talu ac arddangos ym meysydd parcio cyhoeddus y Cyngor, felly os nad oes nodyn i'w weld, dylech wirio os ydi o'n faes parcio'r Cyngor.

Mae lleoliad holl feysydd parcio Cyngor Gwynedd ar gael ar ein gwefan: www.gwynedd.llyw.cymru/parcio

**NODYN:**
Dylai unrhyw un sy'n parcio mewn maes parcio sy'n eiddo i gorff arall wirio'r trefniadau yn ofalus cyn parcio gan ei bod yn bosib na fydd parcio am ddim ar gael yno.

## Rhoddion i'r Llais

| | |
|---|---|
| £56.00 | Er cof am Caeron a Nancy Roberts, Erw Faen, Tregarth gan Bryn a Jois. |
| £38.00 | Ann Huws, Y Fali, Ynys Môn |
| £30.00 | Alwyn Llwyd, Caerdydd |
| £15.00 | Gwynfryn Davies, Caernarfon |
| £15.00 | Edward a Joyce Jones, Tregarth |
| £20.00 | Er cof am Mr. W. J. Evans, Ffordd Llanllechid (helpar Siôn Corn) a Glenys Evans,Ceunant, Llanllechid, oddi wrth Gwil Rees, Karen, Tom a'r teulu. |
| £10.00 | Karen a Tom Williams, Henbarc, Llanllechid. |
| £20.00 | Er cof am Emyr Roberts, Ffordd Ffrydlas, oddi wrth ei briod, Margaret, a'r teulu. |
| £30.00 | Er cof annwyl am un o hogia Llanllechid, sef Glyn Davies (Glyn, Moduron y Pandy, Tregarth, gynt) gan Gwenda a'r teulu. |
| £25.00 | Er cof am Bronwen Davies a fu farw 29 Rhagfyr 2017. Oddi wrth Alan. |
| £5.00 | Di-enw Bethesda. |
| £10.00 | Er cof annwyl am dad, taid a hen daid, sef Richard Cyril Thomas, 22 Maes Ogwen, Tregarth, oddi wrth Llewela, John Llewelyn, Mathew, Catrin a Lowri. |
| £28.00 | Cyfarchion Nadolig  i bawb yn Nyffryn Ogwen. Pob bendith dros Yr Ŵyl oddi wrth Nerys ac Arthur Rowlands, Cefnddwysarn. |
| £69.00 | Er cof am Raymond a Katie May Jeffries oddi wrth Susan Jeffries, Caerdydd. |
| £20.00 | John Ffrancon Griffith, Abergele, er cof am ei rieni. |

**Diolch yn fawr**



## Braichmelyn

**Penblwydd Arbennig**
Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Mrs. Beryl Orwig, Cilcafan, a ddathlodd ei phenblwydd yn 90 mlwydd oed ddiwedd Tachwedd.



# Llandygái

**Iona Wyn Jones**, Dyma Fo, 16 Pentref, Llandygái, Bangor LL57 4HU (01248 354280) ionawynbangor@gmail.com

**Newid Aelwyd**
Dyna hanes Melanie Brown a'r genod o Rhif 11 yn y pentref. Mae'r holl bentrefwyr yn dymuno yn dda iddynt yn eu cartref newydd yn Caellepa.

**Eglwys Sant Tegai**
**Nadolig Llawen!**
Fel cynulleidfa hoffem ddymuno Nadolig Llawen i bawb yn Nyffryn Ogwen. Boed bendith yr Ŵyl ar eich teuluoedd a'ch cartrefi.

**"Anrheg y Nadolig" Ymgyrch Elusennol yr Eglwys yng Nghymru 2022**
Yn yr Hydref gwahoddodd Archesgob Cymru i ni fel eglwysi baratoi bocsys o bethau ymolchi fel eitemau ychwanegol i bobl yn ein banciau bwyd lleol. Pentyrrodd yr eitemau i fewn ar ddechrau'r Adfent a dosbarthwyd nhw i'r bocsys yn barod i drosglwyddo i Bantri Pesda a'r Gadeirlan. Diolch i aelodau y gynulleidfa am eu parodrwydd i ymwneud â hyn ac am eu holl haelioni tuag at elusennau yr ardal.

**Cyngerdd Cantabile**
Cynhaliwyd cyngerdd Côr Merched Cantabile yn yr eglwys ar nos Sul Rhagfyr 11eg am 6 o'r gloch pan gawsom gyfle fel cynulleidfa i ymuno yn y carolau. Diolch i Jan Roberts, aelod o'r côr ac o gynulleidfa St. Tegai am gynnig cynnal y noson.


**Nadolig Ysgol Llandygai**
Braf fydd cael croesawu plant, staff a rhieni ein ysgol eglwys yn ôl i'r adeilad i ddathlu'r Nadolig ar Rhagfyr 13eg. Cawn ddau gyngerdd, yn y prynhawn ac yn yr hwyr, i gynnig cyfle i bawb wrando ar y perfformiadau. Edrychwn ymlaen!

**Gwasanaethau Nadolig St Tegai 2022**
**Rhagfyr 18fed** Gwasanaeth Naw Llith a Charol dwyieithog traddodiadol yng ngolau cannwyll am 6 o'r gloch (y cyntaf ers 2019!) Bydd lluniaeth ysgafn nadoligaidd yn Neuadd Talgai ar ôl y gwasanaeth.

**Rhagfyr 24ain** Noswyl y Nadolig Cymun Bendigaid am 11 o'r gloch yr hwyr Ni fydd gwasanaeth yn yr Eglwys ar Ddydd Nadolig .

**Ar ddydd Mercher**
Gwasanaeth 10.15, paned a sgwrs i ddilyn, ar yr ail a'r pedwerydd Mercher yn y mis. Os na ddymunwch fynychu'r gwasanaeth, mae dal croeso i chi ymuno â ni am y baned a sgwrs sy'n dilyn!

**Apêl Nadolig 2022**
Derbynnir rhoddion at Apêl y Nadolig yn ddiolchgar fel arian parod ym mlwch postio unrhyw swyddog eglwys, mewn siec drwy'r post (yn daladwy i **Llandegai Church**) neu drosglwyddiad banc (Cyfrif yr Eglwys: **30-90-43 00098435**. Os gwelwch yn dda, gadewch i ni wybod os ydych yn gwneud trosglwyddiad banc). Buasai'r Trysorydd yn gwerthfawrogi pe buasech yn cynnwys eich enw, cyfeiriad a chôd post llawn. Mae cyfraniad Cymorth Rhodd yn codi gwerth eich arian o 25%. I dorri i lawr ar ymweliadau banc dylai pob rhodd Nadolig gyrraedd cyn ddiwedd Rhagfyr 2022 os gwelwch yn dda.



- Ann E Williams, Warden y Ficer, Llwyn Coed, 9 Llwyn Bleddyn, Llanllechid, Bangor Gwynedd LL57 3EF *01248600719 annacoed@hotmail.com*
- Edmond Douglas Pennant, Warden y Bobl a Thrysorydd, Drws Melyn Lodge, Pentref Llandygai, Bangor, Bangor, Gwynedd LL57 4HU
- Nerys Jones, Ysgrifennydd a Sacristan, 2 Bryn Cottages, Llandygai, Bangor, Gwynedd. LL57 4LD 01248354369 *nessie211@btinternet.com*
- Rhian Llewelyn Jones, 15 Trefonwys, Bangor, Gwynedd. LL57 2HU *01248355223* *rhianlljones@hotmail.co.uk*

**Manylion Cyswllt**
Mae'r eglwys ar agor! Yn dilyn sefydliad y Parch. Ddr. Gareth Lloyd fel ein Arweinydd Bro a Ficer Bro Ogwen, gofynnwn i chi gysylltu'n uniongyrchol ag ef ar 01248361521 neu gareth.lloyd@cantab.net ynglŷn ag unrhyw fater yn ymwneud â'r eglwys.

# Sling

**Marwolaeth**
Yn dawel yng Nghartref Glan Rhos, ar 23 Hydref, bu farw Blodwen Jones, 6 Godre'r Parc, Sling, yn 95 oed. Priod annwyl y diweddar Griffith Jones (Griff Carfan) a mam arbennig Eleri a'r diweddar Trefor. Mam yng nghyfraith Alan John a Gaynor, a nain hoffus i Carys, Delyth, Stephen, David a Bethan. Hen nain i Elgan, William, Griff, Nel, Elis a Hendrik, a chwaer i'r diweddar Goronwy, Meurig, John, Robin, Dafydd, Gracie a Llew.

Cafodd Blod ei geni a'i magu yn Mynydd Llandygai, yn rhan o deulu mawr a chlos. Cafodd ei haddysg yn ysgolion Bodfeurig a Bethesda. Wedi cyfarfod â Griff fe briododd yn Mynydd, ac ymgartrefodd y ddau yn Sling.

Roedd yn aelod selog o Gapel Gorffwysfan, Sling, ac yn athrawes yr Ysgol Sul. Bu'n gweithio ym Mhrifysgol Bangor am sawl blwyddyn gyda'r diweddar Raymond Tugwell, a bu'r ddau yn gyfeillion oes.

Cynhaliwyd ei hangladd ddydd Sadwrn, 5 Tachwedd, gyda gwasanaeth yn Eglwys Cedol Sant, Pentir, dan arweiniad y ficer, y Parchg./Ddr. Gareth Lloyd, a Mrs. Christine Edwards wrth yr organ. Fe'i rhoddwyd i orffwys ym mynwent Pentir. Cydymdeimlwn yn fawr ag Eleri ac Alan a gweddill y teulu.

## Talybont

**Neville Hughes**, 14 Pant, Bethesda (600853)
**Barbara Jones**, 1 Dol Helyg, Talybont (353500)

**Talybont**
Yn gyntaf oll, gwaith ymddiheuro sydd gennym. Cafwyd llun da iawn o James, 10 Dolhelyg, yn rhifyn Tachwedd o'r ' Llais' ond, yn anffodus, gyda'r ysgrifen anghywir odditano. Fel hyn roedd hi i fod i ddarllen.

**Penblwydd**
Dathlodd James Martin, 10 Dolhelyg, ei benblwydd yn 21 oed ar y cyntaf o Hydref. Dyddiad ei eni oedd 01/10/01, sydd yn rhif arbennig i hogyn arbennig iawn. Fe gafodd ddiwrnod, a chacen i'w cofio, yn ei weithle yn Antur Waunfawr.

**Symud tŷ**
Y newyddion trist yw inni golli Einir a Meic o rif 51 Bro Emrys. Mae'r golled i ni, Bleidwyr Talybont, yn anferth, oherwydd roedd Einir bob amser yn barod i rannu taflenni, neu helpu'r Achos mewn unrhyw ffordd y gallai. Mae ei sêl dros ei gwlad a'i hiaith yn fawr iawn, fel y gwêl pobl Llŷn, ble bydd hi a Meic, a Layla, eu ci ffyddlon, yn ymgartrefu, wedi sbelan bach yn nhref y Cofis. Pob bendith a dedwyddwch iddynt i'r dyfodol, a diolch am bob cymorth.Mae Josh a Harriet yn rhif 51 erbyn hyn, ac yn hapus iawn yn eu cartref newydd.

Croeso cynnes i Abbie Edwards, o Ffordd Llanllechid, Rachub, i rif 5 Dolhelyg. Mae hi a Scot, ei chariad, gyda chymorth amhrisiadwy ei thad, Steve, yn brysur iawn yn y tŷ ar hyn o bryd. Mae Abbie yn Rheolwraig ar Gynllun Partneriaeth Tirwedd y Carneddau, ac wrth ei bodd yn y swydd.

Edrychwn ymlaen at gael ei chwmni yn Rhes Dolhelyg yn y dyfodol agos.

**Llongyfarchiadau**
Mae Mitchel Jones, bachgen pedair ar ddeg oed o Fro Emrys, eisoes wedi profi llwyddiant mawr ym myd paffio. Fe lwyddodd i ennill medal aur ym mhencampwriaeth 'Boxcup' ym Manceinion ym mis Awst, cyn hedfan i Ddenmarc ym mis Hydref i gymeryd rhan mewn un o gystadleuthau mwyaf Ewrop, gydag oddeutu 450 o baffwyr eraill. Unwaith eto, llwyddodd i ennill medal aur, a chael ei goroni yn Bencampwr 'HSK Boxcup'. Y mis dilynol, ennillodd ornest arall yn Lerpwl, ac mae ganddo ragor o ornestau ar y gweill ar gyfer misoedd Rhagfyr a Ionawr.

Nid yw'n syndod i neb ohonom glywed iddo gael ei enwebu ar gyfer Carfan Ddatblygu Cymru. Dalia ati, Mitchel.



Mitchel yn y Cylch Paffio

**Profedigaeth**
Anfonwn gydymdeimlad dwys at Margaret a Neville Fearnley, Helyg, a'r cysylltiadau teuluol i gyd. Bu farw, Wyn, brawd Margaret a Glenys, ar Ddachwedd 10ed, yn Ysbyty Gwynedd. Roedd Wyn yn byw gyda'i wraig, Anne, a'i deulu ym Morfa Nefyn, ond hogyn o Dalybont oedd o; wedi'i fagu yng Nghae Gwigin. Gwnaeth ei yrfa fel Peirianydd efo B.T, ac ef oedd un o sylfaenwyr Clwb Rygbi Bethesda.

Cynhaliwyd ei wasanaeth angladdol yn Amlosgfa Bangor, ar ddydd Iau, 24ain o Dachwedd.

**Gŵyl y Nadolig**
Dymunwn fendithion y Nadolig, a'r iechyd gorau posibl, i bawb ym mhentref ac ardal Talybont, ac i'n ffrindiau i gyd drwy'r Dyffryn.

**Capel Bethlehem**
*Oedfaon (am 2 o'r gloch)*
Rhagfyr 18: Dathlu'r Nadolig
Rhagfyr 25: Dim oedfa
Ionawr 01: Parchg. Cledwyn Williams
Ionawr 08: Y Gweinidog
Ionawr 15: Parchg. R. O. Jones
Ionawr 22: Y Gweinidog
Ionawr 29: Mr. Richard Lloyd Jones
Croeso cynnes i bawb.

*Ffair Nadolig*
Cafwyd noson hynod o lwyddiannus ar 28 Tachwedd pan gynhaliwyd ein Ffair Nadolig cyntaf ers 2019.Gwnaed elw ardderchog o £900.00 at y Capel. Diolch i bawb am gefnogaeth gwych i'r noson, ac i'r rhai a gyfrannodd i'r llwyddiant mewn unrhyw ffordd.

## Cyngor Cymuned Llanllechid

Cynhaliwyd cyfarfod misol y Cyngor ar yr 10fed o Dachwedd. Cafwyd diweddariad gan Abbie Edwards o Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri ar brosiectau Cynllun Partneriaeth Tirwedd Y Carneddau. Adroddwyd fod cyfarfod wedi bod rhwng Cynghorwyr Cymunedol a Dafydd Einion, Swyddog Cefnogi Cymunedau. Cafwyd cyfarfod yn Nhalybont i drafod datblygiadau y Cae Peldroed.

Hoffai'r Cyngor gymeradwyo Y Cynghorydd Geraint Hughes a chwmni Jones o Gymru ar gael ei henwi ar restr fer Gwobr Gorau mewn bwyd a diod.

## Marchnad Ogwen

Noson brysur! Ia, cafwyd noson dda a phawb yn mwynhau ein Marchnad Nadolig ar y 23ain o Dachwedd. Noson gymunedol braf. Diolch yn fawr i bawb a fu yn ein cefnogi – mae'r Stondinwyr yn gwerthfawrogi'n fawr.

Un nodwedd bwysig sydd wedi amlygu ei hun yn y Farchnad – mae nifer o'n Stondinwyr yn siaradwyr Cymraeg newydd. Mae rhai yn hollol rugl ac eraill yn dechrau ar y daith i siarad yr iaith. Ardderchog ynte. Rydym yn falch iawn ohonynt ac yn gwerthfawrogi eu hymdrech.

Ar ran pawb ym Marchnad Ogwen, Cyfarchion y Nadolig i chi oll a Blwyddyn Newydd Dda pan ddaw.

Gobeithio y cawn eich croesawu ym Marchnad gyntaf 2023 ar Ionawr 14eg.

Mae gwybodaeth lawn ar facebook y Farchnad ac ar ein gwefan www.marchnadogwen.co.uk



Siôn Corn gan Tacla Tirion (Catrin Thomas)



Jamiau Cartra (Neville Hughes)




Gwaith Llechi Amser Al (Alun Davies)

# Rachub a Llanllechid

**Emlyn Williams**, Pont Llan, Llanllechid, Bangor, LL57 3LE
(07887624459) henbarc13@gmail.com

**Cyfarchion Nadolig**

Hoffai Gwilym Rees Evans, Ceunant, Llanllechid, ddymuno Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb o'i deulu, ffrindiau a chymdogion.

Ni fydd Karen a Tom, Henbarc, yn anfon cardiau Nadolig eleni, ond maent yn dymuno Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb.

**Priodas**

Llongyfarchiadau i Sian Mererid a Gethin Sherrington, Hen Barc, ar eu priodas yng Nghapel Carmel, Caellwyngrydd, ar y 31ain o Hydref. Dymuniadau gorau oddi wrth teuluoedd y ddau.



**Cydymdeimlo**

Anfonwn eich cydymdeimlad at holl deulu y diweddar Eleanor Jones (Hughes gynt), Maes Bleddyn. Bu farw Eleanor ar 16 Tachwedd yn 73 mlwydd oed, wedi iddi ddioddef salwch creulon iawn ers misoedd. Bu'r angladd yn yr Amlosgfa ym Mangor ar ddydd Gwener, 25 Tachwedd 2022.

**Ysbyty**

Anfonwn ein cofion at Eirwyn Pritchard,1, Bron Arfon sydd wedi bod yn derbyn triniaeth yn Ysbyty Gwynedd. Gobeithiwn y caiff ddod adref yn fuan. Dyma gyfle hefyd i gydymdeimlo gyda Eirwyn a Joan ar achlysur trist marwolaeth chwaer Eirwyn, sef Catherine, a oedd wedi byw yn Llandrillo yn Rhos ers nifer o flynyddoedd.

**Diolch**

Dymuna Val, Paul, Jonathan a'r teulu ddiolch o galon i bawb am y cardiau, rhoddion a phob arwydd o gydymdeimlad a dderbyniwyd yn ystod eu colled diweddar. Bu farw Keith Thomas o 2 Tan Y Garth ar yr 11eg o Hydref yn Ysbyty Gwynedd, Bangor, ar ôl cyfnod o waeledd. Bydd y rhoddion yn cael eu rhoi at Ysgol Sul Capel Carmel er côf am Keith.

## PLAID LAFUR DYFFRYN OGWEN

**Colled**

Ergyd fawr i holl aelodau'r Blaid Lafur, a'r ardal yn gyffredinol, oedd colli Mr Godfrey Northam. 'Roedd yn gymeriad gweithgar ac egnïol, ac yn un o hoelion wyth Llafur yn Nyffryn Ogwen ac Etholaeth Arfon.

**Bore Coffi**

Cynhaliwyd bore coffi llwyddiannus yng Nghanolfan Cefnfaes fore Sadwrn, Tachweddd 26, pryd y cafwyd cyfle i rannu atgofion lu am waith Godfrey dros y gangen. Mae'n chwith ar ei ôl.

**Ysgrifennydd Newydd**

Etholwyd Mr KC Gordon , o Rachub, yn Ysgrifennydd newydd y gangen.

**Carmel Llanllechid**

*Priodas*

Ar ddiwrnod olaf mis Hydref, mi gawsom ni achlysur hapus iawn i'w ddathlu yng Ngharmel. Roedd un o'n haelodau ni yma sef Siân Mererid, merch Marian a Brynmor Jones, Ffordd Coetmor wedi priodi gyda Gethin Sherrington o Dregarth. Gweinyddwyd y briodas gan ein gweinidog, Parchg John Pritchard. Dymunwn bob bendith a hapusrwydd i'r dyfodol i'r ddau ohonyn nhw yn eu cartref yn Hen Barc.

*Cleifion*

Mae dau o'n haelodau ni yn Ysbyty Gwynedd ar hyn o bryd. Nid yw Mrs Margaret Bryn wedi bod yn dda yn ddiweddar a bu'n rhaid iddi hi fynd i mewn i'r ysbyty. Cafodd Mr Thomas Jones godwm anffodus yn ei gartref a brifo ei ben yn arw. Rydan ni'n gobeithio y bydd y ddau yn teimlo yn well ac yn cael mynd adref i'w cartrefi yn fuan iawn. Anfonwn ein cofion anwylaf atyn nhw.

*Banc Bwyd Pesda*

Mi wnaethom ni benderfynu rhoi bocs mawr yng nghyntedd y capel gan ofyn yn garedig i'r aelodau i'w lenwi â gwahanol fathau o fwydydd. Pan fydd hwnnw'n llawn, mi fyddwn ni'n ei anfon i'r banc bwyd ym Methesda. Diolch i bawb am bob caredigrwydd a chydweithrediad. Mi fyddwn ni'n ddiolchgar iawn am unrhyw gyfraniad.

*Clwb Gwau*

Bu merched y Clwb Gwau yn brysur iawn yn ystod y flwyddyn yn gwau capiau a sgarffiau yn ogystal ag ychydig o sioliau lliwgar i'w rhoi ym mocsys Plentyn y Nadolig. Casglwyd eu gwaith nhw canol mis Tachwedd. Roedd dros gant o gapiau wedi eu gwau. Roedd y nwyddau hyn i'w hanfon i Wcráin a Rwmania. Diolch unwaith eto i'r merched eleni.



Merched y Clwb Gwau â'u cynnyrch nhw



*Bedydd*
Ym mis Tachwedd cafodd Mili Mair, hogan bach Anna Mair a Dave o Lanfairfechan, ei bedyddio mewn gwasanaeth yn y capel. Mae Anna yn ferch i Keilly a Michael, Lôn Groes. Roedd y gwasanaeth hwn eto yng ngofal Parchg John Pritchard. Pob bendith a dymuniadau gorau i Mili Mair a'i rhieni hi.

*Yr Ysgol Sul a Chlwb Dwylo Prysur*
Derbyniwyd rhodd tu hwnt o hael o £1,330 tuag at waith yr Ysgol Sul yma er cof am Mr Keith Thomas, Tan y Garth oddi wrth Val ei briod, a Paul a Siân, a Jonathan a Leanne. Bydd y rhodd sylweddol hon yn mynd ffordd bell iawn wrth gynnal gweithgareddau i'r plant.

Bu prysurdeb mawr ymhlith y plant a'r bobl ifanc gan eu bod nhw wedi cystadlu yn Eisteddfod Dyffryn Ogwen yn yr adran gelf. Cafodd y plant lleiaf ail wobr gyda'u cywaith nhw ar y testun "Pwy wnaeth y sêr uwchben?" ac roedd llawer wedi cystadlu yn y gystadleuaeth honno. Enillodd cywaith y plant hynaf wobr gyntaf ar y testun "Lle mae Talcen y Deyrnas?". Bu pobl ifanc Clwb Dwylo Prysur yn llwyddiannus hefyd gan ennill y wobr gyntaf yn eu cywaith nhw yn yr adran gelf agored ar destun "Dail yr Hydref".

Llongyfarchiadau iddyn nhw i gyd ac i blant Ysgol Llanllechid hefyd am eu llwyddiant mawr yn yr eisteddfod.



**Y plant hynaf a'r cywaith buddugol**

*Trefn Gwasanaethau*
Rhagfyr 18: Gwasanaeth Nadolig Cymunedol yng Nghapel Jerusalem am 7 o'r gloch.
Rhagfyr 25: Gwasanaeth Bore'r Nadolig gan yr aelodau am 10 o'r gloch. (Casgliad i'w roi at Apêl Malawi Cymorth Cristnogol)
Ionawr 1: Gweinidog (Cymun) am 5 o'r gloch.
Ionawr 8: Cyfarfod Gweddi am 5 o'r gloch.

**CROESO I BAWB**

## Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i chi gyd


STEPHEN JONES
TREFNWR
ANGLADDAU CYF
PEN Y BRYN BETHESDA
GWASANAETH PERSONOL
PEDAIR AWR AR HUGAIN
CAPEL GORFFWYS
BETHESDA • 01248 600455 • 07770265976
Ebost: stephenjonesfuneraldirectors@outlook.com

SAMARIAID
Gogledd Orllewin Cymru
Beth bynnag rydych chi'n ei wynebu
Rydyn ni yma i wrando
Llinell Gymraeg ddi-dâl
7-11pm bob nos
0808 164 0123
Gwefan: www.samariaidbangor.cymru

Cynghorwyr Sir Dyffryn Ogwen
Plaid Cymru





Tregarth a Mynydd Llandygai • cynghorydd.BecaRoberts@gwynedd.llyw.cymru • 07436 927237
Gerlan • cynghorydd.EinirWynWilliams@gwynedd.llyw.cymru • 07747 690456
Canol Bethesda • cynghorydd.RheinalltPuw@gwynedd.llyw.cymru • 07789 742092
Arllechwedd • cynghorydd.DafyddMeurig@gwynedd.llyw.cymru •07765 400140
Rachub • cynghorydd.PaulRowlinson@gwynedd.llyw.cymru • 07949 034967

HYWEL WILLIAMS
AELOD SENEDDOL DROS ARFON





CYSYLLTWCH:
01286 672076
70 Stryd Fawr, Bangor
hywel.williams.mp@parliament.uk
YMA I BOBOL DYFFRYN OGWEN AC ARFON

# YSGOL DYFFRYN OGWEN

### Noson Agored

Cynhaliwyd Noson Agored flynyddol yr ysgol, nos Fawrth, 15fed o Dachwedd i rieni disgyblion ym mlwyddyn 6.  Yr oedd yn braf iawn gweld darpar rieni a disgyblion o ysgolion Bodfeurig, Llanllechid, Penybryn, Rhiwlas, Tregarth a Llandygai.  Yr oedd canmoliaeth fawr i'r noson gan y rhieni a fu'n bresennol a gobeithir yn fawr y bydd pob disgybl sy'n byw yn y dalgylch yn dod i Ysgol Dyffryn Ogwen.



**Y disgyblion a rhieni yn mwynhau**

### Ymweliad Ysgolion Cynradd

Bu sesiynau blasu ar gyfer disgyblion ysgolion cynradd y dalgylch.  Roedd pawb wedi mwynhau yn fawr, diolch yn fawr i'r disgyblion a'r staff am ddod draw i Ysgol Dyffryn Ogwen. Cwpan y Byd oedd thema'r gwersi wrth gwrs gan ddysgu am Qatar yn ogystal a chreu gwaith Celf a chyfansoddi darn i gefnogi Cymru gyda chymorth Emyr Gibson. Da iawn chi ddisgyblion blwyddyn 6 am ddangos ymroddiad, cwrteisi ac ymdrech wych!

### Cyngor Ysgol

Llongyfarchiadau i aelodau'r cyngor ysgol ar gael eu hethol i gynrychioli eu dosbarthiadau cofrestru. Mae'r fforymau cyntaf wedi digwydd gyda disgyblion yn cynrychioli bob blwyddyn. Mae tymor prysur iawn o flaen y grŵp yma gyda thrafodaethau am ddysgu ac addysgu, gwisg ysgol a hyrwyddo hawliau pobl ifanc ar y gweill.

### Ceisiadau Prifysgol Blwyddyn 13

Mae aelodau o flwyddyn 13 wedi bod yn gweithio yn ddiwyd ar eu ceisiadau prifysgol, ac yn gyffrous iawn am y profiadau sydd o'u blaenau.

### Plant Mewn Angen

Ar ddiwrnod Plant Mewn Angen roedd y chweched dosbarth a nifer o staff wedi gwisgo mewn gwisg ffansi i godi arian at achos da. Roedd llu o weithgareddau yn neuadd a ffreutur yr ysgol gan gynnwys stondin gwerthu cacennau. Cawsom ddiwrnod gwerth chweil a hel dros £450!

### Gêm Pêl-droed Cwpan y Byd

Disgyblion 7 Glyder yn barod am gêm bêl droed Cymru v Iran. Daeth holl ddisgyblion a staff yr Ysgol at ein gilydd yn y neuadd i wylio Cymru yn erbyn Iran. Er gwaethaf y gefnogaeth frwd, colli i goliau hwyr fu ein hanes wrth gwrs.

### Eisteddfod Dyffryn Ogwen

Llongyfarchiadau mawr i Mari Fflur Bullock o flwyddyn 13 a ddaeth i'r brig yng nghystadleuaeth Medal yr Ifanc.  'Rydym yn hynod falch o dy lwyddiant ac o fyfyrwyr adran y Gymraeg am gynnal gorsedd mor urddasol.



**Côr oedran uwchradd**
1af - Ysgol Dyffryn Ogwen
**Gwobr y perfformiwr mwyaf addawol**
Hari Bale
**Unawd lleisiol uwchradd**
2il - Rhiannon Roberts
3ydd - Cian Rhys
Llongyfarchiadau i'r holl ddisgyblion a fu'n cystadlu, da iawn chi!

### Taith Gŵyl y Gelli i Aberystwyth!

Gallwch ddisgrifio ein taith ni i Ŵyl y Gelli mewn un gair: GWEFREIDDIOL!
Dydd Iau y 10fed o Dachwedd cafodd disgyblion 7 Ogwen a 7 Ffrnacon y cyfle i fynd i Ŵyl y Gelli yn Aberystwyth. Wel dyma oedd cyfle arbennig. I ddechrau roedd rhaid bod yn yr ysgol erbyn 7:30, oedd yn dasg anodd iawn i ambell un, ac i goroni'r cwbl roedd hi'n ddiwrnod glawog! Yna taith hir a blinedig ond yn llawn adloniant gyda'r holl ddisgyblion yn morio canu 'Yma o Hyd' yr holl ffordd i Aberystwyth ar y bws. Wedi cyrraedd Prifysgol Aberystwyth cawsom ein tywys i neuadd enfawr oedd yn orlawn o



**Disgyblion blwyddyn 7 yn mwynhau Gŵyl y Gelli**





# PLAID CYMRU DYFFRYN OGWEN

Cafodd y gangen flwyddyn lwyddiannus. Yn y gwanwyn roeddem yn ffodus i ethol pump o'n aelodau i'r Cyngor Sir, gan gynnwys dwy o Gynghorwyr newydd, sef Einir Williams dros Gerlan, a Beca Roberts dros Dregarth a Mynydd Llandygai. Yn fwy diweddar, cynhaliwyd bore coffi yng Nganolfan Cefnfaes. Roedd yn braf iawn gweld pawb a chael sgwrs. Diolch i bawb wnaeth ddod, pawb wnaeth helpu, a diolch hefyd i'r ganolfan. Hefyd fe gawsom ginio dolig hynod arbennig yn Nhafarn y Tryfan. Diolch i Catrin Wager am drefnu, a diolch yn enwedig i Dewi a'r criw am y bwyd ac am y croeso cynnes.

Yn y flwyddyn newydd, rydym yn edrych ymlaen at ein cyfarfod blynyddol yn y gwanwyn; bydd y cyfarfod yma yn un wyneb i wyneb. Rydym am gynnal cwis tafarn tua diwedd Ionawr, a bydd mwy o ddigwyddiadau cymdeithasol eraill yn digwydd yn ystod y flwyddyn.

Rhaid talu teyrnged i Hywel Williams am ei flynyddoedd o wasanaeth wrth iddo gyhoeddi y bydd yn ymddeol wedi'r etholiad nesa. Mae Hywel wedi cynrychioli Dyffryn Ogwen ers 2010 fel rhan o etholaeth Arfon, a cyn hynny Caernarfon ers 2001. Yn yr amser hyn mae wedi helpu nifer fawr iawn o bobl yr ardal ac wedi codi llawer o faterion pwysig yn San Steffan. Rydym yn dymuno'r gorau iddo i'r dyfodol.

gadeiriau ar gyfer yr holl ddisgyblion lwcus oedd yn ymweld â'r ŵyl, a phedwar bardd arbennig sef; Anni Llŷn, Aneirin Karadog, Ifor ap Glyn a Mererid Hopwood. O'r cychwyn cyntaf roedden ni ddisgyblion YDO yn teimlo'n bwysig gan mai ni oedd yr unig ysgol o'r Gogledd. Ni chawsom ein siomi o gwbl. Roedd yr ŵyl yn wych gydag adloniant a gweithgareddau amrywiol o'r cychwyn cyntaf, o chwalu wyau yn deilchion i ddysgu siarad Almaeneg, roedd yn brofiad bythgofiadwy! Diolch Mrs Thomas a gweddill Adran y Gymraeg am roi profiad mor arbennig i ni.

*Siwan Mary Griffith a Gruff Beech Blwyddyn 7*

### Taith Blynyddoedd 12 a 13 i Glan-llyn

Cafodd criw o flynyddoedd 12 a 13 sy'n astudio'r Gymraeg y cyfle i fynychu cwrs tri diwrnod yng Nglan Llyn, y Bala yn ddiweddar. Pwrpas y daith oedd dysgu ymhellach am gynnwys y cwrs Cymraeg drwy ddarlithoedd gan amrywiol feirdd ac awduron, ac i fwynhau wrth gwrs. Rhai o'r uchafbwyntiau oedd y daith i'r Ysgwrn, y cwrs rhaffau uchel, y talwrn a'r dawnsio gwerin! Diolch i Mrs Catrin Thomas a Miss Lowri Jones am fynd â ni... er na chafodd unrhyw un fawr o gwsg!

*Erin Griffiths Blwyddyn 12*

### Chwarel y Penrhyn

Diolch i gyfeillion o gwmni *Welsh Slate* yn Chwarel y Penrhyn am gyflwyniad diddorol ac addysgiadol i ddisgyblion blwynyddoedd 10 ac 11 am yr holl gyfleon sydd ar gael gyda grŵp Breedon. Roedd llawer o'r disgyblon wedi eu hysbrydoli a'i hysgogi i feddwl am eu llwybr gyrfa.

### Clwb Gwyddbwyll

Daeth criw da o ddisgyblion ac ambell un o'r athrawon i sesiwn gyntaf y Clwb Gwyddbwyll yn ddiweddar. Da gweld gemau traddodiadol yn goroesi er gwaethaf yr holl gystadleuaeth ddigidol! Diolch i Mr Laurence a Mr Thomas am drefnu.



## Pentir

**Cynrig a Carys Hughes,** Rallt Uchaf, Pentir, LL57 4YB
(01248 601318) carys16@hotmail.com

### Eglwys St. Cedol

**Cydymdeimlad**

Anfonwn ein cydymdeimlad at Gwynfryn, Eirwen, Alwyn a'u teuluoedd yn eu profedigaeth o golli mam a nain annwyl, sef Mai Williams gynt o Bro Rhiwen, Rhiwlas, ar y 9fed Hydref. Cynhaliwyd ei hangladd ar y 19eg Hydref ym Mynwent Pentir.

Hefyd estynnwn ein cydymdeimlad at Sharon, Alison, Adrian, Kevin a'u teuluoedd yn eu profedigaeth o golli brawd ac ewythr arbennig, sef Marc Williams, Ynys Iago, Pentir ar y 13eg Hydref. Cynhaliwyd ei angladd ar y 26ain Hydref yn Eglwys St. Cedol gan ddilyn yn Amlosgfa Bangor.

Hefyd, yr un yw'r neges o gydymdeimlad at deulu Victor Bradley oedd yn preswylio yng Nghartref Glan Menai, Treborth. Estynnwn ein cydymdeimlad at ei briod Helen a'r teulu yn eu profedigaeth. Cynhaliwyd ei angladd yn Amlosgfa Bangor ar 28ain Tachwedd.

Derbyniwch ein cydymdeimlad dwysaf.

**Bedydd**

Ar brynhawn Sul o Hydref, bedyddiwyd Eden merch fach Alison a Ruben Florence, Pentir, gan Y Parchedig Dr Gareth Lloyd. Braf oedd cael estyn croeso i'w theulu i'r eglwys ar ddiwrnod mor arbennig.

**Hamper Misol**

Rydym yn cynnal raffl hamper misol ar thema wahanol pob mis er mwyn codi arian i gynnal yr Eglwys. Enillydd hamper mis Hydref oedd Catrin Fôn, casgliad o ffrwythau a llysiau tymhorol. Rhoddwyd yr hamper gan Eirwen a Nia. Fe aeth yr ail wobr, sef potel gwin i Nia Roberts.

Hoffem ddiolch i'r aelodau, eu teuluoedd a'r teuluoedd estynedig am fod mor barod i gefnogi. Hefyd, i aelodau a chyfeillion am eu rhoddion o hamperau. Diolch o galon ichi gyd.

**Cyngerdd**

Braf oedd gweld yr Eglwys yn llawn ar gyfer cyngerdd gan Gôr Glanaethwy nos Sul 13eg Hydref. Roedd yn noson wych gyda'r côr yn perfformio rhan o stori'r geni. Hoffem ddiolch i Cefin a Rhian am lwyfannu noson mor arbennig. Roedd y cyngerdd er budd Cronfa Pentir/ Penrhosgarnedd Eisteddfod Genedlaethol Llŷn ac Eifionydd 2023.

**Gwasanaethau'r Ŵyl**

Bydd y gwasanaethau canlynol yn dathlu'r Ŵyl ac mae croeso cynnes i bawb:
18fed Rhagfyr 9.30yb – Naw Llith a Charol
24ain Rhagfyr 9.00yh – Cymun Cyntaf y Nadolig

**Cyfarchion yr Ŵyl**

Hoffem fel Eglwys ddymuno Nadolig Llawen a Blwyddyn Dda i holl drigolion bro'r Llais

**Gwasanaethau**

Mae Gwasanaeth pob bore Sul am 9.30yb. Mae croeso cynnes i bawb ymuno gyda phanad a sgwrs i ddilyn.

**Manylion cyswllt**

Os am drefnu priodas neu fedydd neu unrhyw fater arall yn ymwneud a'r eglwys cysylltwch gyda'r Parchedig Dr Gareth Lloyd, Arweinydd Ardal Gweinidogaethol Bro Ogwen gareth.lloyd@cantab.net neu 01248 361521. Cofiwch fod Nia (Warden) 07719 918686 yna ichi os am unrhyw wybodaeth neu am sgwrs.

BYSUS D. P. Owens RHIWLAS
01248 361044 a 07771 634195

BYSUS O 25 I 57 SEDD AR GAEL AR GYFER EICH HOLL ANGHENION TEITHIO - TRIPIAU, PRIODASAU, PARTÏON AC ATI.
Bysus Gwyrdd Rhiwlas
GWASANAETH LLEOL, TRADDODIADOL A DIBYNADWY
SEFYDLWYD 1997 PERCHENNOG: DERFEL OWENS

**Elwyn Jones & Co**
hefyd yn masnachu fel
Parry Davies Clwyd-Jones & Lloyd LLP
- Cyfreithwyr -
123 Stryd Fawr
Bangor
Gwynedd
(01248) 370224
*Ar gyfer eich holl anghenion cyfreithiol*
*Gwasanaeth dwyieithog personol a chyfeillgar*
*Swyddfeydd eraill:*
*Llangefni (01248) 723106*
*Porthaethwy (01248) 719517*
*Benllech (01248) 852782*
*Caernarfon (01248) 673616*
*Pwllheli (01758) 703000)*



## Glasinfryn a Chaerhun

**Mair Griffiths**, (352966)
mairpenybryn@gmail.com

**Cylch Glasinfryn**
Daeth nifer dda ynghyd ar bnawn 9 Tachwedd yn y Ganolfan i weld gwaith crefft Angharad Huws o Fethesda. Dangosodd Angharad gwiltiau, clustogau,eitemau at y Nadolig ac amryw eitemau trawiadol eraill yr oedd wedi eu gwneud. Yr oedd pawb wedi rhyfeddu at y gwaith cywrain a safonol oedd yn yr amrywiol gwiltiau. Gwaith o'r radd uchaf yn wir. Talwyd y diolchiadau gan Margaret Owen. Darparwyd y te gan Margaret, Jean a Kath gyda Carole yn rhoddi y raffl. Allan am bryd o fwyd amser cinio byddwn fis Rhagfyr, yna edrychwn ymlaen at groesawu Anwen Thomas i roi sgwrs ar "Adweitheg (Reflexology)" ar 11 Ionawr am 2.00yp. Mae croeso cynnes i aelodau hen a newydd i'r cyfarfodydd.

**Bingo**
Cafwyd noson Fingo lwyddiannus yn y Ganolfan ar 25 Tachwedd. Diolch yn fawr iawn i bawb am gefnogi ac am y rhoddion hael iawn tuag at y noson. Diolch yn arbennig i Ann a Dawn am drefnu'r noson. Gwnaed elw o £180 tuag at y Ganolfan.

**Yn yr Ysbyty**
Dymuniadau gorau i Mair Griffiths am adferiad buan yn dilyn triniaeth am ail glun newydd yn Ysbyty Gwynedd. Diolch yn fawr iawn i Guto a Caio am ddanfon Llais Ogwan yn Waen Wen a Chaerhun. Byddant yn gwybod ble mae pawb yn byw erbyn mis nesaf! Pob dymuniad da i bawb arall yn yr ardal sydd heb fod yn dda yn ddiweddar, rhai yn dilyn i fyny triniaethau wedi gwaeledd yn ystod y flwyddyn.

**Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb!**



**Owen's** Tregarth
Cerbydau 4, 8 ac 16 sedd
*Arbenigo mewn meysydd awyr*
*Cludiant Preifat a Bws Mini*




01248 60 22 60 | 07761 619 475
www.owenswales.co.uk

**JOHN ROBERTS**



**Paentiwr**
**Papurwr**
**Teilsiwr**
**Symudol: 07747 628650**
**Ffôn: 01248 600995**

**Londis Bethesda**
☎ 01248 605566
Archfarchnad hwylus
a Swyddfa Bost
Gwasanaeth personol
gyda'r pwyslais ar y cwsmer
Tocynnau Loteri, cardiau a biliau trydan a nwy
Ar agor 7.00 y bore tan 10.00 yr hwyr
7 diwrnod yr wythnos



# Natur o'n Cwmpas

# Gwalch y Pysgod – ymwelydd annisgwyl

**Rhan 2**

Yn dilyn y sylw a roddwyd y mis diwethaf i'r gwalch y pysgod a ymwelodd â gwarchodfa natur Llyn Celanedd yn Aberogwen, derbyniais yr ymateb canlynol gan Ieuan Bryn, hen gyfaill sy'n naturiaethwr profiadol. Diolch iddo am yr wybodaeth ddiddorol.

'Mae'n od meddwl mai creaduriaid ysglyfaethus byd natur ydi rhai o'r creaduriaid hardda' a mwya' rhyfeddol. Mae hyn yn arbennig o wir am ein hadar ysglyfaethus, a chan fod y rhain ar frig y gadwyn fwyd, mae eu presenoldeb (a'u habsenoldeb) yn rhoi syniad go dda inni o gyflwr iechyd cyffredinol ein hamgylchedd ni.

'O'm rhan fy hun, byddwn yn gosod gwalch y pysgod yn uchel iawn ar restr yr adar ysglyfaethus mwya' rhyfeddol, ac mae ei hanes yn nythu yng Nghymru yn 2004, am y tro cyntaf ers sawl canrif, yn stori o lwyddiant eithriadol, oherwydd i'r un iâr ddychwelyd o Affrica i'r un nyth wrth lannau Glaslyn, a magu cywion yno, bob gwanwyn ers hynny. Gwyddom mai hi ydi'r walches y pysgod hynaf yng Nghymru a Lloegr – ac yng Ngwledydd Prydain, o bosib. Fe wyddon ni hefyd fod o leiaf 130 o gywion y rhywogaeth erbyn hyn wedi gadael nyth yn llwyddiannus mewn gwahanol rannau o Gymru, a bod o leiaf 126 wedi mentro ar eu siwrnai gyntaf i Orllewin Affrica.



Y gwalch y pysgod yn Aberogwen eleni. Llun: Karen Roberts, Northwich (gynt o'r Gerlan).

'Dyma'r unig aderyn ysglyfaethus sy'n byw yn gyfan gwbl ar bysgod, ac mae ganddo ddau ddull o'u dal nhw: un ai esgyn hyd at ryw 300 troedfedd yn yr awyr a phlymio i lawr amdanyn nhw, neu sgimio'r dŵr a chipio pysgod fydd yn bwydo'n agos at yr wyneb.

'Wrth blymio, mi fydd yn bwrw'r dŵr ar gyflymder o tua 50 milltir yr awr, ac yn mynd i lawr hyd at lathen o dan yr wyneb i grafangu ei brae. Mae ei wylio'n plymio o'r fath uchder, a chlywed y daran wrth iddo daro'r dŵr, ac yna, ei weld yn codi ei brae gwinglyd, yn un o'r profiadau mwya' cofiadwy.

'Mae ei grafangau yn unigryw. Yn wahanol i bob aderyn ysglyfaethus arall (ac eithrio'r dylluan), fe all droi un o'i bedwar gewin am yn ôl, er mwyn cael gafael iawn ar ei 'sgodyn. Mae ganddo hefyd sbigylau dan ei draed i gryfhau ei afael eto.

'Mae ei lygaid yn fwy na llygaid unrhyw aderyn arall mewn cymhariaeth â maint y corff, ac efo'r rhain, fe all weld goleuni uwchfioled, yn ogystal â gweithio allan yn berffaith beth yw lleoliad y 'sgodyn a pha mor ddyfn y mae. 'All ein llygaid ni ddim gwneud hynny am fod golau'n plygu wrth fynd drwy ddŵr, ac yn rhoi camargraff inni.'

## Wyddech chi ...?

- fod eira yn hafn y Ffos Ddyfn, 3,000 o droedfeddi o uchder ar ochr ogleddol Carnedd Llywelyn, ar y diwrnod olaf o Orffennaf, 1951 (cofnod swyddogol). Dyma'r man ble mae eira'n parhau hwyaf yng Nghymru, a hynny oherwydd ei fod yn wynebu'r gogledd ac yn y cysgod yn barhaus.
- fod Nant Ffrancon yn gynefin i haid fechan o adar hynod brin yng Nghymru, sef llinosiaid y mynydd.
- fod grugieir (ieir mynydd) wedi dychwelyd i Foel Wnion yn ddiweddar gan fod y grug yn cydio eto ar y gwaenydd uchel.

Mae'r golofn hon yn rhoi sylw i ryfeddodau a gwahanol agweddau ar fyd natur Dyffryn Ogwen a'r cyffiniau, gan fanteisio ar wybodaeth leol ac ar ffynonellau eraill. Anfonwch eich cyfraniadau at Ieuan Wyn, Talgarreg, Ffordd Carneddi, Bethesda LL57 3SG ieuanwyn01@gmail.com 01248 600297.

C.L. JONES

Masnachwyr Coed a Nwyddau Adeiladu

Timber & Builders' Merchants

Bethesda - Caernarfon - Mynytho - Llanrwst - Llangefni - Caergybi - Bae Cinmel

C.L. Jones yw eich masnachwyr adeiladu annibynnol lleol gydag amrywiaeth eang o ddeunyddiau adeiladu o safon gan gynnwys cyflenwadau plymio, addurno a thirlunio. Rydym yn agored i fasnachau a'r cyhoedd, ac yn cynnig danfoniad am ddim. Mae gennym arddangosfeydd ceginau ac ystafelloedd ymolchi ar gael yn ein canghennau yn Llangefni a Llanrwst.




Bethesda 01248 600 045

bethesda@cljonesltd.co.uk

# Eisteddfod Gadeiriol Dyffryn Ogwen

**CANLYNIADAU CYFARFOD YR HWYR – NOS WENER, TACHWEDD 18FED, 2022**

**Unawd Lleisiol Agored:**
1af – Caleb Rhys - Bethesda
2il – Cadi Jones
3ydd – Llinos Hanson – Bethesda

**Unawd Lleisiol Oedran Uwchradd**
1af – Branwen Jones – Ysgol Bryn Hyfryd
2il – Rhiannon Elfyn – Ysgol Dyffryn Ogwen
3ydd - Cian Rhys – Ysgol Dyffryn Ogwen

**Unawd Offerynnol (yn cynnwys piano):**
1af – Lisa Morgan
2il – Gwenno Roberts
3ydd – Olwen Gwyn

**Côr Cymysg/Meibion/Merched:**
1af – Côr y Penrhyn
2il – Côr Adlais
3ydd – Côr Dre

**Perfformiad Mwyaf Addawol Disgybl Ysgol Dyffryn Ogwen**
Harri Bale – Ysgol Dyffryn Ogwen

**CANLYNIADAU ADRAN LLENYDDOL**

**Enillydd y Gadair:**
Meleri Davies, Llanllechid

**Enillydd y Fedal Ryddiaith:**
Siôn Wyn Roberts, Y Felinheli

**Enillydd Medal yr Ifanc:**
Mari Fflur Bullock, Ysgol Dyffryn Ogwen

**Llên Agored**
Englyn - Alan Iwi, Didcot ger Rhydychen
Limrig – Linda Rhys – Llangernyw
Englyn ysgafn – Alan Iwi, Didcot
Stori fer – Gwawr Jones, Bangor

**Llên yr Ifanc**

**Blynyddoedd 7-9:**
Cydradd 1af – Lois Ryder, Dwynwen Priychard ac Elliw Davies – Ysgol Dyffryn Ogwen

**Blynyddoedd 10-11:**
Cydradd 1af – Mari Roberts a Hannah Ellis – Ysgol Dyffryn Ogwen
2il – Nicola Wheatcroft

**CANLYNIADAU DYDD SADWRN, TACHWEDD 19EG, 2022**

**Llefaru Meithrin.**
1af – Enlli Medi Williams - Ysgol Abercaseg
2il – Guto Williams - Ysgol Llanllechid
3ydd – Eos Hughes – Ysgol Llanllechid

**Unawd Meithrin.**
1af – Noa Mildoon – Ysgol Llanllechid
2il – Sadie Jones - Ysgol Abercaseg
3ydd – Enlli Medi Williams - Ysgol Abercaseg

**Llefaru Derbyn.**
1af – Efa Rhos - Ysgol Llanllechid
2ail - Eleth Jones – Ysgol Llanllechid
3ydd – Ayla Montgomery – Ysgol Llanllechid

**Unawd Derbyn.**
1af – Efa Rhos - Ysgol Llanllechid
2il – Nanw Branwen Glyn – Ysgol Abercaseg
3ydd – Ayla Montgomery -Ysgol Llanllechid

**Llefaru Blwyddyn 1.**
1af – Iolo Dafydd Owen Parry – Ysgol Llanllechid
2il – Beti Henry Allsup – Ysgol Llanllechid
Cydradd 3ydd – Eiri Gwyn a Mila Dafydd – Ysgol Llanllechid



**Côr Blwyddyn 6 ac iau: 2il - Ysgol Penybryn.**



**Tarian Perfformiad Gorau Cerddorol: Judah Parry, Ysgol Tregarth.**



**Tarian Perfformiad Gorau am Lefaru: Nêst Durrant, Ysgol Llanllechid.**



**Parti Unsain Blwyddyn 6 ac iau: 1af - Parti Ysgol Llanllechid.**



**Côr Blwyddyn 6 ac iau: 1af - Ysgol Llanllechid Côr 1.**



**Unawd Alaw Werin Blwyddyn 6 ac iau: 1af - Lloer Prysor, Ysgol Llanllechid; 2il - Leo Montgomery, Ysgol Llanllechid.**



**Parti Llefaru Ysgol Gynradd: 1af - Ysgol Llanllechid.**



**Llefaru Blynyddoedd 5 a 6: 1af - Lili Mair, Ysgol Llanllechid; 2il - Lloer Prysor, Ysgol Llanllechid; 3ydd - Nêst Durrant, Ysgol Llanllechid.**



**Unawd Blwyddyn 1: 1af - Owain Griffiths, Ysgol Abercaseg; 2il - Beti Henry Allsup, Ysgol Llanllechid; 3ydd - Mila Dafydd, Ysgol Llanllechid.**

**Unawd Blwyddyn 1.**
1af – Owain Griffiths - Ysgol Abercaseg
2il – Beti Henry Allsup – Ysgol Llanllechid
3ydd – Mila Dafydd – Ysgol Llanllechid
**Unawd Blwyddyn 2.**
1af – Evie Rae – Ysgol Llanllechid
2il – Pyrsi Llywelyn Lewis Jones – Ysgol Llanllechid
3ydd – Anna Parsons – Ysgol Llanllechid
**Llefaru Blwyddyn 2.**
1af – Pyrsi Llywelyn Lewis Jones – Ysgol Llanllechid
2il – Efa Gwen a Nel Owen – Ysgol Llanllechid
3ydd – Greta Connell – Ysgol Abercaseg
**Llefaru Blynyddoedd 3 a 4.**
1af – Erin Mon Roberts – Ysgol Llanllechid
2il – Mali Efa – Ysgol Pen y Bryn
3ydd – Mali Non – Ysgol Pen y Bryn
**Unawd Blynyddoedd 3 a 4.**
1af – Cadi Lois Jones – Ysgol Llanllechid
2il – Efa Gwen Owen – Ysgol Llanllechid
3ydd – Lili Herbert – Ysgol Llanllechid
**Llefaru Blynyddoedd 5 a 6**
1af – Lili Mair – Ysgol Llanllechid
2il – Lloer Prysor – Ysgol Llanllechid
3ydd – Nêst Durrant – Ysgol Llanllechid

**Unawd Alaw Werin Blwyddyn 6 ac iau.**
1af – Lloer Prysor – Ysgol Llanllechid
2il – Leo Montgomery - Ysgol Llanllechid
3ydd -Lili Mair – Ysgol Llanllechid
**Unawd Blynyddoedd 5 a 6.**
1af – Judah Parry – Ysgol Tregarth
2il – Nêst Durrant – Ysgol Llanllechid
3ydd – Lili Mair – Ysgol Llanllechid
**Parti Llefaru Ysgol Gynradd.**
1af – Ysgol Llanllechid
**Unawd Offerynnol Blwyddyn 6 ac iau.**
1af – Judah Parry – Ysgol Tregarth
**Unawd Piano Blwyddyn 6 ac iau**
1af – Elan Morris – Ysgol Llanllechid
2il – Mili Roberts – Ysgol Llanllechid
**Parti Unsain Blwyddyn 6 a iau**
1af – Parti Ysgol Llanllechid
**Côr Blwyddyn 6 ac iau.**
1af – Ysgol Llanllechid 1
2il – Ysgol Pen y Bryn
3ydd – Ysgol Llanllechid 2
**Grŵp Dawnsio Disgo Blwyddyn 6 ac iau**
1af - Ysgol Llanllechid
**Grŵp Dawnsio Creadigol Blwyddyn 6 ac iau**
1af – Ysgol Pen y Bryn
**Dawnsio Disgo Unigol Blwyddyn 6 ac iau**
1af – Mili Roberts – Ysgol Llanllechid
**Tarian Perfformiad Gorau am Lefaru**
Nêst Durrant – Ysgol Llanllechid
**Tarian Perfformiad Gorau Cerddorol**
Judah Parry – Ysgol Tregarth

**Llenyddiaeth Ysgolion Cynradd y Dalgylch**
**Stori**
1af – Elan – Ysgol Llanllechid
2il – Ela, Catrin a Lloer – Ysgol Llanllechid

**Barddoniaeth**
Cydradd 1af – Efan, Lloer, Deio a Medi -Ysgol Llanllechid



**Llefaru Blwyddyn 1: 1af - Iolo Dafydd Owen Parry, Ysgol Llanllechid; 2il - Beti Henry Allsup, Ysgol Llanllechid; Cydradd 3ydd - Eiri Gwyn a Mila Dafydd, Ysgol Llanllechid**



**Unawd Derbyn: 1af - Efa Rhos, Ysgol Llanllechid; 2il - Nanw Branwen Glyn, Ysgol Abercaseg; 3ydd - Ayla Montgomery.**



**Dawnsio Disgo Blwyddyn 6 ac iau: 1af - Ysgol Llanllechid.**



**Unawd Meithrin: 1af - Noa Mildoon, Ysgol Llanllechid; 2il - Sadie Jones, Ysgol Abercaseg; 3ydd - Enlli Medi Williams, Ysgol Abercaseg.**



**Llefaru Meithrin: 1af - Enlli Medi Williams, Ysgol Abercaseg; 2il - Guto Williams, Ysgol Llanllechid; 3ydd - Eos Hughes, Ysgol Llanllechid.**



**Harri Bale - Perfformiad Mwyaf Addawol Disgybl Ysgol Dyffryn Ogwen.**



**Plant Dosbarth Meithrin yn barod i gystadlu**



**Côr Ysgol Dyffryn Ogwen - 1af Adloniant Uwchradd**

**Llongyfarchiadau ar Ennill Cadair Eisteddfod Dyffryn Ogwen**
Mae'n bleser gennym gyhoeddi'r cerddi buddugol gan "Meillionen", sef Meleri Davies, Llanllechid, sydd yn ddynes brysur iawn ac yn fam i dri o blant ifanc.



Enillydd Y Fedal Ryddiaith - Siôn Wyn Roberts; Enillydd y Gadair - Meleri Davies; Enillydd Medal yr Ifanc - Mari Fflur Bullock.

# Ynysu

**Gaeafgwsg**

Ar fy nghwrcwd yn y cwpwrdd crasu,
dillad llaith yn crogi
a sana fel dail hen hydref ar y llawr.
Mae'r fasged wedi troi
ac ail olch y dydd yn longddrylliad wrth fy nhraed.
Mae 'na gorwyntoedd tu allan
ond dwi 'di blino gwrando
ar unrhywbeth
tu hwnt i'r cynfasau gwyn.

Ond daw gosteg
a mae'r ffraeo'n troi'n chwilio
a dwi'n gwybod fod hi'n amser
datod pelen fy nghorff
ac ailgynefino.

Ei chysgod dwi'n 'weld cyn popeth arall
yn ddu dan y drws ac yna llaw fechan wen
yn gwthio i ddüwch y 'stafell –
ei chwerthin yn llifo efo'r gola
i wyngalchu'r cysgodion â'i llawennydd.
Cyffro byw yn gryniadau o felyn ac aur yn dringo'r cynfasau
a'i chyffyrddiad fel pelydrau'r bora ar fy ngruddiau.

A dwi'n ildio i'r cymuno yn y cwpwrdd crasu.
Dwy wiwer goch yn un belen oren o fwytha
yn gynnas wenu eto -
gwenu fatha'r Gwanwyn.

**Annwn**

Dwi mewn cyfarfod arall. Rhithiol wrth gwrs. Lot o ddynion a fi
a'm llais wedi ei ddiffodd.
Ond yn yr Annwn o dan fy nesg,
mae'r fenga yn lledrithio byd gwell
a'i chanu yn codi uwchlaw grwn y *Zoom*
yn Fabinogi o eiriau a chwedlau dwi wedi eu hen anghofio.
Mae hi'n cofleidio fy nghlun â thorch euraidd ei breichiau
cyn ymestyn ei chorff bach yn belen i 'nghôl.
Mae'n gwingo a'i gwinedd yn suddo i gnawd
trwy byjamas blêr.
A minnau'n ei gwrthod.
Yn hologram grotesg o warth ar y sgrin.
Fy sgrech Arianrhod fewnol yn fud i'r byd tu draw.

Ond dwi'n ei chodi, a daw'r rhith i ben.
Ei hanadl yn suo'n gynnes ar fy ngwâr.
Ei breichiau bach yn anwesu cydynnau gwymon fy ngwallt.
Mae lleisiau'r cyfarfod rhithwir yn tawelu
ac am eiliadau -
eiliadau -
mae sgriniau'n dadmer,
wynebau llwyd yn meddalu
a phicsalau'n anadlu rhyddhad a rhyfeddod.
A dwi'n cofio rwan.
Cofio pob gair.

**Byd arall**

Dwi'm yn siwr i le mae hi'n mynd.
Nunlla go iawn
ond dydy hi ddim yna.

'Da ni'n llawn twrw heno
fatha tri gwenyn rownd ei phen hi
yn bownsio oddi ar ffenast y byd mae hi 'di dianc iddo.
Ella ga i fynd yna efo hi rywbryd
pan dwi'n fawr.

Mae dad yn gwylltio a'i lais o'n codi eto
fatha teciall yn ail-ferwi
ond dydy hi ddim yn sylwi.

Mae hi'n llonydd
yn syllu ar hannar *fish finger* oer ar ei phlat –
canhwyllau ei llygaid yn ddu fatha sgrin y ffôn, heb *notifications*.
Du codi ofn -
fatha gwaelod y môr.

"Mam" "Mam" "Mam"

A fatha cyfrinair hud y ffôn, mae mam yn deffro.
Y düwch yn meddalu i las a gwyrdd
tonnau Dinas Dinlla yn yr haf.

"Reit ta, pwdin ia blant?"
A fel yna mae hi nol yma –
fatha petala llygad y dydd yn ail-agor eto
i wenu'n felyn fel yr haul.

Mae fy llygaid i fatha soseri rwan,
achos mae mam yn torri croen y pwdin
a mae'r hufen aur o siwgr a mêl yn llifo.
A da ni gyd yn wenyn hapus eto.
Ni a hi.

**Ynyswyr**

Gwich drws a chamau bach ar bren
a'u lleisiau fel llifddorau'r bore rhwng dwy len.
Cyffro, cymalau, cusannau
a 'ngwely yn sigo dan bwysau
lladron cwsg a chipwyr calonnau.
Eu neidio fel cerrig yn dryllio 'nghynfasau
a 'mreuddwydion yn gylchoedd yn chwalu i gyrion
y cae sgwar sy'n lapio'n dyn,
yn goflaid gron.

Ac wedi'r llongddryllio
daw mwytha heb eiria.
Amrannau ar ruddiau,
anadl ar wegil,
gola' ar groen,
fel y wawr gynta 'rioed.

Ein ynys ni yw hon.
Ynys o ddeffro i fysedd bach yn gorfodi
fy llygaid i agor.

Meillionen

# Beth sy'n digwydd yn y Dyffryn

## Eglwys Unedig Bethesda

**Y GYMDEITHAS**
Yng nghwmni hanesydd
**Ieuan Wyn**

Festri Jerusalem
Nos Iau, 12 Ionawr
am 7.00 o'r gloch

## CYMDEITHAS HANES DYFFRYN OGWEN

(Darlith wyneb yn wyneb a rhithiol drwy gyfrwng Zoom)

**Nos Lun Ionawr 9fed, 2023**
**7.00 Dr. Ffion Eluned Owen**
**Sul, Gwyl a Gwaith**

Wyneb yn wyneb: Yn Festri Capel Jerusalem, Bethesda.
Cofrestrwch efo **garethllwyd197@btinternet.com**

Rhithiol tros Zoom: Cofrestrwch efo **bethan@ogwen.org**

Cofrestrwch erbyn 12 o'r gloch dydd Llun, Ionawr 9fed,
ar yr hwyraf os gwelwch yn dda

**Tal Aelodaeth**
£10.00 i rai mewn gwaith | £5.00 i bensiynwyr a'r di-waith
Plant ysgol am ddim
Cost darlithoedd unigol = £2.00
Y ffioedd i'w talu i gyfrif 'Cymdeithas Hanes Dyffryn Ogwen'
drwy: BACS: 40-16-02 41386212 Neu drwy siec.

## CARMEL LLANLLECHID

**Gwasanaeth Bore'r Nadolig am 10 o'r gloch**
Gwneir casgliad tuag at
**APEL MALAWI** (Cymorth Cristnogol)
Croeso i Bawb

## Eglwys Sant Tegai, Llandygai

**Nos Sul, 18 Rhagfyr am 6.00yh**
**Gwasanaeth Naw Llith a Charol**
**(am y tro cyntaf ers 2019)**
Lluniaeth ysgafn nadoligaidd i ddilyn.
Croeso cynnes i bawb yn ôl i'r Eglwys!

**Noswyl y Nadolig**
**24 Rhagfyr am 11.00yh**
Cymun Bendigaid

## Capel Bethlehem, Talybont

**Dathlu'r Nadolig**
**Dewch i Ganu Carolau**

**Dydd Sul, 18 Rhagfyr am 2.00yp**
**Gwneir Casgliad**
**at waith Cymorth Cristnogol**

## ..rhagor o luniau o'r Eisteddfod



Plant y ddawns Flodau, Ysgol Llanllechid.



Unawd Offerynnol: 2il - Gwenno Grug Roberts, Tregarth



Llefaru Blwyddyn 3 a 4 : 1af - Erin Môn Roberts, Ysgol Llanllechid; 2il - Mali Efa, Ysgol Pen y Bryn; 3ydd - Mali Non, Ysgol Pen y Bryn.



Unawb Blwyddyn 2: 1af - Evie Rae, Ysgol Llanllechid; 2il - Pyrsi Llywelyn Lewis Jones, Ysgol Llanllechid; 3ydd - Anna Parsons, Ysgol Llanllechid.

Canolfan Cefnfaes
## Gyrfa Chwist
**Rhagfyr 20**
**Ionawr 10, 24 a 31**
am 7 o'r gloch.
Croeso i bawb


Sefydlwyd 1969

**m.hughes a'i fab**

**CONTRACTWYR TOI**
Bryn Myfyr, Allt Pen y Bryn, Bethesda
☎ 600633
☎ (symudol) 07702 583765
*Arbenigo mewn gwaith ffelt a pitsio.*
*Hefyd toeau llechi a gwaith yswiriant.*
*Gadewch i ni gynnig pris rhesymol am waith diguro.*

# Côr y Penrhyn

## gyda Derfel Roberts



**Galw di-baid**

Nid oes ball ar y galw am wasanaeth Côr y Penrhyn ar hyd ac ar led Cymru a'r tu hwnt ac ni fyddai'n ormodiaith hawlio mai'r côr hwn ydy'r côr prysuraf yng Nghymru gyfan ar hyn o bryd. Ymhlith y perfformiadau a roddwyd gan y côr yn ystod y mis a aeth heibio mae canu ar y maes rygbi cenedlaethol cyn y gêm yn erbyn yr Ariannin yn sicr o fod yn garreg filltir arall yn hanes y cantorion hyn.

Union wythnos wedi'r perfformiad hwnnw bu'r côr yn cystadlu yn Eisteddfod Dyffryn Ogwen, lle daethant yn fuddugol yn erbyn dau gôr arall. Yna'r bore drannoeth roedd yr hogia' ar y bws yn teithio i lawr i ardal Aberteifi a Chastell Newydd Emlyn i gymryd rhan mewn noson arbennig yng nghwmni Côr Rygbi Aberteifi. Cynhaliwyd noson debyg i Noson Lawen mewn plasty neu westy mawr o'r enw Rhosygilwen ger Cilgerran. Gellir gweld lluniau o'r noson ar dudalen 'Facebook' y lle. Ar lawer cyfrif gellid disgrifio'r perfformiadau fel rhai Noson Lawen yn fwy na chyngerdd, gan fod nifer o ganeuon digri, dynwaredwr Elvis a pherfformiadau ysgafn eraill yn cynnig amrywiaeth o hwyl a blas gwledig i'r noson. Taith nodedig a chanmol mawr ar raglen y côr.

Diolch i Haydn Davies, sy'n hanu o Genarth, am ei waith yn trefnu i ni fynd i'r ardal.

**Cyngherddau Mis Rhagfyr**

**2 Rhagfyr**, Cadeirlan Bangor. Cyngerdd yng Nghadeirlan Bangor gyda Rhys Meirion oedd hwn wedi'i drefnu gan Hosbis Dewi Sant i godi arian at yr Hosbis oedd hwn a gobeithio eich bod wedi cael tocynnau i fod yno. Mae'r cyngerdd hwn wedi dod yn un o nosweithiau sefydlog y côr ac yn hwb sylweddol i'r gwaith pwysig a wneir yno.

**3 Rhagfyr**, Gwesty Ty'n y Coed, Capel Curig i ganu carolau dan nawdd perchnogion Y Wifren Wib (Zip World). Dyma'r tro cyntaf i fwyafrif aelodau'r côr gofio perfformio yno.

**10 Rhagfyr**, Cinio Blynyddol Côr y Penrhyn yng Nghlwb Rygbi Bethesda.

**17 Rhagfyr**, Cadeirlan Llanelwy. Cyngerdd Elusennol arall at yr elusen '***Cerrig Camu' / 'Stepping Stones***'. Elusen sy'n cynnig cyngor a chefnogaeth i bobol a fu'n dioddef camdriniaeth rywiol yn eu plentyndod yw hon yn bennaf ac mae'n gwasanaethu siroedd Gogledd Cymru i gyd. Lleolir y brif swyddfa yn Wrecsam ond mae therapyddion arbennig ar gael yn y chwe sir. Bydd perfformio yn Llanelwy'n brofiad newydd i ni hefyd.

**18 Rhagfyr,** Canu Carolau. Noson o ganu carolau a darlleniadau Nadolig yng Nghapel Jerusalem, Bethesda. Dyma noson sefydlog arall ym mywyd cymdeithasol Dyffryn Ogwen gyda pherfformiadau gan nifer o ddoniau lleol. Mae edrych ymlaen at y digwyddiad hwn bob blwyddyn.

**19 Rhagfyr**, Cyngerdd Nadolig Ysgol Llanllechid yn Pontio Bangor. Bu cyngerdd tebyg yn llwyddiant ysgubol cyn i'r cofid ddod i rwystro pob cyfarfod, a phleser pur oedd gwrando ar blant yr ysgol yn canu o waelod eu calonnau ar lwyfan y theatr.

## Cymeriadau'r Côr

**Cyfres sy'n rhoi gwybodaeth am aelodau'r côr yw hon a'r aelod sydd o dan y llifoleuadau'r mis hwn ydy Mike Butler o Fangor.**

**Be' ydy dy enw llawn?** Michael Butler

**Gwaith** Gwyddonydd

**Lle wyt ti'n byw?** Bangor

**Un o le wyt ti'n wreiddiol?** Gogledd Cymru. Fel plentyn symudais o gwmpas y gogledd. Llangefni, Bethesda (Ysgol Penybryn), Caergybi (Ysgol Uwchradd)

**Ers faint wyt ti'n aelod o'r côr?** Ers mis Awst 2021

**Pa lais wyt ti?** Tenor

**Pam wnest ti ymuno â Chôr y Penrhyn?** Pleser mewn canu ar ôl bod yn aelod o ddau gôr yn y gorffennol (Bison's Men's Chorus o Ganada a Chôr Meibion Cymreig Dulyn (Dublin Welsh Male Voice Choir, DWMVC). Ar ôl symud yn ôl i Gymru yn 2020 mi oeddwn eisiau cyfle i ddefnyddio mwy o Gymraeg - felly Côr y Penrhyn oedd y dewis cyntaf !



**Pa un ydy dy hoff gân yn rhaglen y côr?** Efallai bod '*Gwinllan a Roddwyd i'm Gofal*' a '*Benedictus*' yn arddangos cryfder a dyfnder y côr cystal ag unrhyw ddewis arall.

**Pwy ydy dy hoff ganwr/gantores?** Bryn Terfel

**Beth ydy dy farn di am ganu pop?** Rwy'n hoff iawn o bob math o gerddoriaeth wahanol - yn arbennig jas a blues.

**Oes gen ti atgof am ryw ymweliad efo'r côr?** Canu yn y stadiwm yng Nghaerdydd cyn y gêm rygbi, Cymru yn erbyn Ariannin - profiad anhygoel!

**Pa ddiddordebau eraill sy gen ti y tu allan i'r côr?** Chwarae tenis yng Nghlwb Tenis Bangor

Cerddoriaeth: chwarae gitâr (clasurol, jas a blues); dysgu piano

Beicio efo beic mynydd ar hyd llwybrau beicio Gwynedd

**Oes yna rywbeth faset ti'n hoffi gweld y côr yn ei wneud?** Edrych ymlaen at gyngherddau yn y dyfodol - efallai canu efo corau yn Iwerddon


CAFFI
COED Y BRENIN
1 Rhes Buddug, Bethesda
Ffôn: 01248 602550

Bwyd cartref blasus
(mewn awyrgylch cyfeillgar)
Cinio arbennig bob dydd Iau
Bwyd i'w gario allan
Gwasanaeth arlwyo ar gyfer partïon o bob math – plant, pen-blwydd ac ati
(yn y caffi neu mewn lle o'ch dewis chi)
Prisiau rhesymol
ORIAU AGOR
D. Mercher, Iau, Gwener 8.00 – 2.30

Gadewch i
Londri Coed y Brenin
wneud eich golchi

BARBWR OGWEN
Torri Gwalltiau
Dynion a Phlant gan Alison
Rhaid gwneud apwyntiad.
Ffoniwch: 07796 038824

# Nyth y Gân



## BWYDO'R ADAR

Heb oedi gwelir bwydydd yn denu
   Hyd yno o'r coedydd
Y doniau ar adenydd
Â'u cân bur yn dathlu'r dydd.

## CWYMP Y DAIL

Mae'r goeden yn gwagio
Yn ddyddiol yn awr
A'r dail sydd yn glwstwr
Hyd wyneb y llawr.

Ni fyddant hwy mwyach
Yn siglo'n y gwynt
A chodi ein calon
Fel roeddynt hwy gynt.

Bydd toc yma oerfel
I'w deimlo am hir,
A rhew fydd yn garped
Hyd wyneb y tir.

## GOLYGFA O'R UCHELDIR

Ar frig llwm, lithrig lethrau o wylio
   Fe welir fod mannau
Yn rhwym wrth hen batrymau
Yn frith ond nid byth yn frau.

## Y DELYN

O delyn cafwyd alaw a dynnwyd
   Mor dyner â dwylaw.
A'r werin fu'n trin y traw
Yn hwylus ac yn hylaw.

**Dafydd Morris**


Cegin Karen
Cacennau, Peis a Sawrus
Te Prynhawn a Bwffe ar gael
@CeginKaren Tel: 07886 560781
Ebost / Email: ceginkaren@btinternet.com

J. TEMPLE MORRIS A'I FAB
Pob Math o Waliau Cerrig,
Ffensio, Tarmacio a Thirlunio.
Gwaith gyda peiriant tyrchu bach.
07770 900531
01248 600282
jtemplemorris@btinternet.com

Gareth Williams
Trefnydd Angladdau
Crud yr Awel
1 Ffordd Garneddwen
Bethesda
600763 neu 07708 008051
GWASANAETH DYDD A NOS

## Bethesda

**Mary Jones**, maryeds@hotmail.co.uk (07443 047642)
**Joe Hughes**, Awel y Nant, Ffordd Ffrydlas, Bethesda (601902)

**Llongyfarchiadau**
Llongyfarchiadau i Ffion Elin Roberts, 3 Hen Aelwyd, Bethesda, ar ennill gradd LLB gydag anrhydedd, ym Mhrifysgol Nottingham Trent, y llynedd, a hefyd gradd M.Sc. y flwyddyn yma. Oherwydd Covid roedd Ffion wedi gorfod disgwyl am flwyddyn cyn cael cymryd rhan yn y seremoni graddio. Llongyfarchiadau gan yr holl deulu.

**Profedigaeth**
Ar yr 20fed o Dachwedd bu farw Gordon Llywelyn Davies o Ffordd Cynan, Penrhosgarnedd yn 73 mlwydd oed. Cafodd Gordon ei fagu yng Nglan Ffrydlas, Bethesda a mynychodd ysgolion Pen y bryn a Dyffryn Ogwen. Yn y saithdegau bu Gordon yn cadw siop recordiau ym Mhenrhyn House ar y Stryd Fawr ym Methesda, neu Siop Hir Dywyll i roi'r enw lleol iddi. Mae'n debyg mai dyma'r siop recordiau gyntaf ym Methesda. Cydymdeimlwn â'i wraig Catherine, ei blant a'i wyrion a'i wyresau ynghyd a'i chwaer June a'i frawd Colin yn eu profedigaeth.

**Penblwydd Arbennig**
Penblwydd hapus iawn i John Ffrancon Griffith Abergele, gynt o Tŷ'r Ysgol Glanogwen a ddathlodd ei benblwydd yn 80 ym mis Tachwedd.

Llongyfarchiadau i Einion Thomas, Hen Durnpike, ar gyrraedd oed yr addewid, gan un sydd wedi cyrraedd yr un garreg filltir ym mis Tachwedd.

**Taro 70**
Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Andre Lomozik, Rhos y Coed, a ddathlodd ei ben-blwydd yn 70 mlwydd oed ar 29 Tachwedd. Dymuna'r Llais ddiolch iddo am ei holl waith yn cyfrannu i lwyddiant ein Papur Bro dros y blynyddoedd, gan obeithio y cawn ei wasanaeth am amser maith eto!

**Clwb y Dyffryn**
Mae clwb henoed newydd wedi cael ei sefydlu ym Methesda, a bydd yn cyfarfod yng Ngorffwysfan bob yn ail dydd Mawrth rhwng 2 a 3:30o'r gloch. Bydd croeso cynnes i bawb. Mae dros ugain wedi ymaelodi yn barod, a bydd cyfle nid yn unig i gael cwmni a sgwrs dros baned a bisgedan, ond i fwynhau gweithgareddau amrywiol yn cynnwys ambell wibdaith ym mws bach Partneriaeth Ogwen; person gwadd yn rhoi sgwrs ar bwnc; bingo; bwffe Dolig a mwy.

Bydd cyfarfod nesaf y clwb ar10fed Ionawr, sef gwibdaith.

Am fwy o wybodaeth cysylltwch efo'r Cadeirydd: Margaret Roberts 601476;

Is-gadeirydd Falmai Davies 605131.

Trysorydd Edric Jones

**Carnifal Bethesda**
Râs Sion Corn: Cynhelir y râs 5k dydd Mawrth Rhagfyr 27ain gan gychwyn o'r Clwb Rygbi am 11:00 y bore, at Ganolfan Tregarth ac yn ôl. Am fwy o fanylion ewch ar dudalen gweplyfr y Carnifal.

**Marwolaeth**
*Eurwen Morris*
Ar 22 Tachwedd, yn Ysbyty Gwynedd bu farw Eurwen Morris, Y Garnedd Uchaf, Ffordd Abercaseg, yn 88 mlwydd oed.

## Sefydliad Y Merched Carneddi

Rydym yn cyfarfod yn rheolaidd erbyn hyn ar y nos Iau cyntaf o bob mis yng Nghanolfan Cefnfaes am 7 o'r gloch .

Mae dwy o'n haelodau sef Gwyneth Morris a Nicola wedi derbyn triniaeth yn yr ysbyty yn ddiweddar ac rydym yn anfon dymuniadau gorau iddynt am wellhad buan.

Cawsom ddwy noson hwyliog iawn mis Hydref a mis Tachwedd.

Daeth Elen Williams, Celf, atom mis Hydref i sôn am ei gwaith a sut mae'n mynd o gwmpas i greu ei lluniau bendigedig a'i defnydd o ysgrifbinnau i wneud y gwaith ysgrifenedig .

Ym mis Tachwedd daeth Jên Temple Morris, Margaret, ei mam a Margiad i wneud addurniadau Nadolig. Roedd pawb wedi mwynhau ac wrth eu boddau efo'r addurniad unigol roeddent wedi ei wneud.

Byddwn yn dathlu y Nadolig yn yr Innings eleni cyn ail-gychwyn yn ôl yng Nghefnfaes ym mis Ionawr. Croeso i unrhyw aelodau newydd ymuno gyda ni.



**Dyma'r aelodau gyda'u haddurniadau Nadolig.**

## Eglwys Crist, Glanogwen

**Diolch**
Diolch i bawb am eu cefnogaeth i'n gweithgareddau diweddar. Roedd yn braf cael naws y Nadolig mewn dwy Farchnad yn ystod mis Tachwedd, a chael hwyl ar y Noson Bingo ar Ragfyr 1af.

Diolch arbennig i'r Clwb Criced a Mr Fred Buckley am eu cymorth parod bob amser, hefyd i siopau Tesco a Londis am eu rhoddion, ac i bawb a gyfrannodd a chefnogodd mewn unrhyw fodd dros y flwyddyn ddiwethaf i helpu cynnal Eglwys Glanogwen a chefnogi'r Apel.

Gobeithio'n fawr y bydd digon o arian i weld dechrau ar y gwaith atgyweirio'r to yn fuan.

**Enillwyr Clwb Cant mis Tachwedd:**
£40: 38 – Rhian Ogwen
£20: 88 – Karen Aston
£15: 19 – Kerry Artell

Llongyfarchiadau i'r enillwyr! Tynnir y gwobrau lwcus yng Ngwesty'r Douglas ar y nos Wener olaf o bob mis am 7.30; croeso cynnes i bawb.

**Gwasanaethau'r Nadolig**
**Bore Sul, Rhagfyr 18**
Gwasanaeth Carolau am 11.00
**Dydd Sadwrn, Rhagfyr 24**
**4 y pnawn – Wrth y Preseb**
Gwasanaeth arbennig i'r teulu
**7 yr hwyr – Cymun Nadolig**
Pob Bore Sul am 11.00 y bore – Cymun Bendigaid

Pob Bore Mercher am 10.30 y bore – Cymun Bendigaid neu Foreol Weddi.

Croeso cynnes fel arfer i bawb i'n holl wasanaethau.

**Amlenni Rhodd**
Diolch i bawb am eu cyfraniadau cyson trwy'r amlenni wythnosol – rhain sy'n talu costau'r eglwys. Cofiwch hefyd gysylltu os oes gennych amlenni ac yn methu mynychu'r eglwys ar hyn o bryd, gallwn alw amdanynt.

Mae nifer o'n haelodau yn wael neu wedi cael triniaeth yn yr ysbyty'n ddiweddar; dymunwn wellhad buan iddynt; cofiwch roi gwybodaeth os gwyddoch am unrhyw un sydd angen gweddi, ymweliad, neu Gymun yn eu cartref.

Dymunwn Nadolig Dedwydd a Blwyddyn Newydd Dda i aelodau, teuluoedd a ffrindiau oll

**Manylion Cyswllt**
Gellir cysylltu a'r ficer, y Parch. Ddoctor Gareth Lloyd, ar 07847 125 225 ynglyn ag unrhyw fater yn ymwneud â'r eglwys, gan gynnwys trefnu priodas, angladd neu fedydd.

Cofiwch bod Barbara (600530) a Glenys (600371) ar ben arall y ffôn os am gael sgwrs.



Priod annwyl Dafydd, mam annwyl Sheila a'i phriod Elfyn. Llys-fam Rhys, nain hoffus Ceri a Dion, a hen nain Lili, Seren, Haf ac Enfys, a chwaer i Selwyn, Miriam ac Emrys. Gwraig annwyl a hoffus oedd Eurwen ac yn uchel ei pharch gan bawb. Bu'n athrawes cyn ymddeol, ac 'roedd yn flaenor ac aelod ffyddlon o Eglwys Jerusalem hyd nes iddi golli ei hiechyd. Cynhaliwyd ei hangladd yn Amlosgfa Bangor fore Llun, 5 Rhagfyr. Cydymdeimlwn â thi, Dafydd, a'r teulu i gyd yn eich colled.

**Ysbyty**
Bu sawl un yn yr ysbyty yn ystod y mis. Da deall eich bod yn gwella. Cofion cynnes atoch i gyd:

Nicola Hughes, Sŵn y Nant; Darren Griffith, Stad Coetmor; Thomas Jones, Rhos y Coed; Vera Morgan, Maes y Garnedd; Shaun Hughes, Garneddwen.

**Cyfarchion Nadolig**
Eleni, ni fyddwn yn dosbarthu cardiau Nadolig, ond yn hytrach yn rhoi rhodd ariannol i elusen sy'n agos iawn at ein calonnau, sef Cymorth Cancr MacMillan. Dymunwn Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd dda i deulu, ffrindiau a chymdogion, oddi wrth Ian a Brenda 19 Rhes Gordon.

Ni fydd Helen Roberts, Ffordd Ffrydlas, yn anfon cardiau Nadolig eleni, ond mae'n dymuno Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'r teulu, cyfeillion a chymdogion.

## Yr Eglwys Unedig

**Ordeinio Gweinidog**
Nos Fawrth, Tachwedd 8, cynhaliwyd gwasanaeth arbennig yn Eglwys y Groes, Wrecsam, pryd yr ordeiniwyd Mrs Nerys Griffiths yn weinidog. Oherwydd y tywydd mawr, methodd y criw ohonom a oedd wedi bwriadu mynychu'r cyfarfod â mynd yno, ond deallwn bod yr achlysur wedi bod yn fendithiol a hapus iawn. Cawsom ni yma yn Jerusalem y fraint o groesawu'r Parchedig Nerys Griffiths am y tro cyntaf fore Sul, Tachwedd 20, a chyflwynwyd anrheg fechan a blodau iddi i gofnodi'r achlysur. Wrth gwrs, 'rydym bellach yn hen gyfarwydd â hi fel un sydd yn gweithio'n ymroddedig dros achos Iesu Grist, ac edrychwn ymlaen at flynyddoedd o'i harweiniad a'i gofal drosom.



Dyma lun o'r Parchedig Nerys Griffiths gyda'i thad, y Parchedig Hugh Pritchard, yn y Cyfarfod Ordeinio.

**Marwolaeth**
Collodd yr eglwys aelod gwerthfawr arall ym marwolaeth Mrs Eurwen Morris, yn dilyn cyfnod hir o salwch. Cyflawnodd Eurwen waith clodwiw fel aelod a blaenor o'r Capel, a bydd colled fawr ar ei hôl. Anfonwn ein cydymdeimlad dwysaf at ei gŵr, Dafydd, ei brawd, Selwyn a'r teulu oll yn eu hiraeth.

**Cydymdeimlad**
Aiff ein cydymdeimlad cywiraf hefyd at Huw a Gwenno Jones yn eu galar o golli Bethan ym mlodau ei dyddiau. Bendith arnoch chwi, a'r teulu i gyd.

**Cofion**
Da oedd deall bod Mrs Elina Owen bellach wedi dod adref o'r ysbyty. Pob dymuniad da i chwi, Elina. Cofiwn hefyd am bawb sydd yn fregus y dyddiau hyn, a dymunwn bob bendith i chwi oll.

**Y Banc Bwyd**
Pleser oedd cael danfon llwyth o fwydydd i'r Banc Bwyd yng Nghaernarfon yn dilyn y rhoddion hael a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod Diolchgarwch. Cofiwch ein bod yn derbyn rhoddion yn barhaol, a byddai nwyddau Nadoligaidd eu naws, megis pwdin 'Dolig, mins peis, a siocled yn dderbyniol dros ben. Diolch i chwi eto am eich haelioni.

**Bore Coffi**
Cynhelir Bore Coffi yn Festri'r capel fore Sadwrn, Rhagfyr 10, rhwng 10 a 12 o'r gloch, er budd y Capel. Diolchwn ymlaen llaw am unrhyw gyfraniad.

**Cyfraniadau Aelodau**
Hoffem atgoffa ein haelodau y dylid anfon eu cyfraniadau ariannol at y Trysorydd erbyn dydd olaf y flwyddyn, os gwelwch yn dda.

**Gwasanaethau**
Penderfynwyd cynnal yr oedfaon boreau Sul yn y Festri dros fisoedd y gaeaf, er mwyn arbed ynni, a hefyd er mwyn i'r gynulleidfa fod yn fwy diddos.

**Llenwi'r Cwpan**
Cofiwch am y baned bob bore Iau yn y Festri - dowch atom am sgwrs ac i gymdeithasu'n hollol anffurfiol!

**Gwasanaeth Nadolig**
Cofiwch hefyd am y Gwasanaeth Nadolig Cymunedol, sydd i'w gynnal yn y Capel am 7 o'r gloch nos Sul, Rhagfyr 18, pryd y bydd datganiadau gan Gôr y Penrhyn, Côr Ysgol Dyffryn Ogwen, ynghyd ag unigolion. Bydd yn braf cael dod at ein gilydd unwaith eto, wedi bwlch o dair mlynedd!

*Cyhoeddiadau'r Sul*
Rhagfyr 18: Gwasanaeth Cymunedol (7)
Rhagfyr 25: Cymun o dan ofal Y Parchedig RO Jones (9.30)
Ionawr 1: Y Gweinidog (10) – Cymun
Ionawr 8: Y Parchedig Trefor Lewis (5)
Ionawr 15: Gwasnaeth Plygain (6)
Ionawr 21: Y Gweinidog (10 a 5)

## Pêl-droed

Mae tair o genod sydd yn chwarae i Glwb Pel-droed Ogwen Tigers wedi cael eu dewis i Ganolfan Datblygu Gogledd Cymru FAW. Yn dilyn treialon yn Parc Eirias cawsant eu dewis i ymuno a sgwad y tymor yma. Llongyfarchiadau mawr i Chrissie Rosser, Myla Williams a Millie Goode. Da iawn genod!



# Rhiwlas

**Iona Jones**, 17 Bro Rhiwen, Rhiwlas
ionarhiwen@hotmail.co.uk (01248 355336)

**Cydymdeimlo**

*Buddug Wyn Jones, Hen Sgubor.*
Buddug oedd yr ieuengaf o deulu Mr. a Mrs. Wlliams, 1 Bro Rhiwen gynt. Bu farw'n dawel yn Ysbyty Gwynedd ac anfonwn ein cydymdeimlad at ei gŵr, Eric a'r plant Bethan ac Edward, ac roedd yn nain i Megan a William. Anfonwn ein cofion at Owi, Meurig a Dilys a'u teuluoedd. Roedd hefyd yn chwaer i'r diweddar Eurwyn, Idwal, Hywel, Selwyn a Myrddin. Bu'r angladd yn Eglwys Sant Cedol gyda'r Parchedig Dr Gareth Lloyd yn gwasanaethu. Derbyniwyd rhoddion tuag at Ward Alaw, Ysbyty Gwynedd.

*Mrs Frances Doyle*
Bu farw'n dawel yn Ysbyty Gwynedd. Fe symudodd Frances a'i gŵr, y diweddar Edgar, i Refail Castell ar ôl iddynt ymddeol. Cyfarfu'r ddau ym Mhrifysgol Newcastle ac yna symud o amgylch y wlad i ble bynnag oedd eu swyddi. Roedd yn aelod ffyddlon o Glwb Rhiwen a tan yn ddiweddar yn cerdded o'r Efail Castell i'r neuadd. Roedd yn ddawnus, yn ysgrifennu barddoniaeth ac yn arlunydd da. Anfonwn ein cydymdeilad at y teulu.

*Victor James Bradley*
Cydymdeimlwn hefyd â Helen Bradley yn ei phrofedigaeth. Bu farw ei gŵr, Victor yn 84 mlwydd oed yng nghartref Bryn Menai, Treborth. Ef oedd rheolwr cyntaf rheilffordd fach Llanberis. Trenau oedd ei ddiddordeb ac wedi ysgrifennu sawl llyfr amdanynt. Roedd yn ŵr arbennig i Helen ac yn llysdad ac yn daid caredig i'r plant. Bu'r angladd yn yr amlosgfa a derbyniwyd rhoddion tuag at Ymchwil Dementia.

**Blaen Dudalen Golwg - Elliw Mai**
Yn un rhifyn o Golwg yn ddiweddar roedd Elliw Mai yn sôn am ddillad a steil. Wedi'i geni a'i magu yn Rhiwlas a bellach yn byw yng Nghaerdydd. Mae'n cyflwyno ar Radio Cymru ac S4C. Yn yr erthygl mae'n sôn am ei steil dillad. Mae'n tueddu i beidio â dilyn "trends" ac yn dueddol i brynu dillad gan yr un cynllunydd. Fe fyddwn yn gwylio'r newyddion yn fanwl rwan!

**Llwyddiant**
Daeth Osian, Bron y Waun , yn ail yng nghystadleuaeth Medal yr Ifanc yn Eisteddfod Dyffryn Ogwen. Da iawn ti Osian! Un arall a gafodd lwyddiant yw Aled Lewis, ac o'r un stâd hefyd fel mae'n digwydd bod. Cafodd y wobr gyntaf mewn cystadleuaeth ffotograffig a drefnwyd gan gylchgrawn sy'n arabenigol iawn. Llongyfarchiadau.

**Cofion** at bawb sydd heb fod yn dda yn ddiweddar, deallaf fod Mrs Myra Jones bellach yn Ysbyty Eryri ac yn gwella.

**Cofeb Rhiwlas** (gan Elwyn Jones)
Dwi ddim yn siwr os mai ar ôl cael fy ethol yn gynghorydd sir yn 2017, ta oedd hi cyn hynny, y dechreuais boeni am y ffaith fod y gofeb Rhyfel Byd Cyntaf oedd yn arfer bod yn Ysgol Rhiwlas wedi diflannu. Yn amlwg mi oedd



Y gofeb wreiddiol



Y gofeb bren

hynny wedi poeni eraill hefyd, gan i rai drefnu i'r gofeb bren gael ei gwneud a'i gosod - eto yn yr ysgol - ag enwau y ddau gollodd eu bywyd yn yr ail ryfel wedi eu ychwanegu at y 9 enw oedd ar y gofeb wreiddiol.

Sawl tro mi fuodd fy niweddar wraig, Margaret, a finna yn trafod ag yn pitio nad oedd yma gofeb yn y pentref – ddim er mwyn clodfori rhyfel ond i gofio am ein arwyr lleol. Hogia ni!

Yn sgil marwolaeth Margaret a haelioni trigolion Rhiwlas, fy nheulu a ffrindia pell ag agos yn ein profedigaeth; mi ydwi a'r plant am gyflwyno'r gofeb lechen yma i'r pentref er cof am Margaret a rhoi'r gweddill i'r Tim Nyrsus Ardal.

Mi gaiff y lechen yma ei gosod tu allan i'r Neuadd, ond fe gafwyd gwasanaeth coffa ar Sul y Cofio i mewn yn y Neuadd o dan ofal Parchedig Ddr Jennie Hurd a gosodwyd dwy dorch ar ran Cyngor Gwynedd a Pwyllgor y Neuadd.




SGAFFALDIAU Cyf.
SCAFFOLDING Ltd.
YR IARD, FFORDD STESION, BETHESDA,
GWYNEDD LL57 3NE
ebost: sales@jrscaffolding.co.uk
Ffôn/Ffacs:
01248 601754
07770 568743 (symudol)
CITB

MODURON PANDY Cyf.
MOT Diesel a Chatalydd
Atgyweirio MOT
Gwasanaethu Cerbydau
Cydbwyso Teiars
Batris
Tracio
01248 600619
moduronpandy@yahoo.com
www.moduronpandymotors.co.uk
Tregarth, Bangor,
Gwynedd LL57 4AY
UNIPART CAR CARE CENTRE



# YSGOL RHIWLAS



## Eisteddfod Dyffryn Ogwen

Llongyfarchiadau i blant creadigol Ysgol Rhiwlas ar ennill gwobrau celf yn Eisteddfod Dyffryn Ogwen – da iawn i bawb am gystadlu.

### Joio yn y Jambori

Roeddem wedi cyffroi i fod yn rhan o'r Jambori ar gyfer Cwpan y Byd eleni. Cawsom gymaint o hwyl yn dysgu'r holl ganeuon ac yn ymuno â channoedd o ysgolion eraill ledled Cymru ar y diwrnod mawr. Roeddem wedi mwynhau dysgu am chwaraewyr pêl-droed Cymru a'r holl wledydd eraill oedd yn cystadlu wrth ein hochr. Rydym mor falch o fod yn rhan o'r dathlu – C'mon Cymru!

### Lynne Gallagher

Diolch yn fawr i Lynne am ddod i'r ysgol ddwywaith yn ddiweddar i gynnal gweithdy creu teils gyda'r plant. Cafodd y gweithdy gwreiddiol ei gynnal yn y Neuadd Bentref ac yna roeddem ni'n ddigon lwcus i groesawu Lynne yma yn Ysgol Rhiwlas i ddysgu mwy o sgiliau newydd.

### Parti Cyw

Yn ddiweddar, cawsom agor ein drysau unwaith eto yn Ysgol Rhiwlas i blant bach yr ardal. Cyfle iddynt ddod i weld yr ysgol a chwarae, canu a dawnsio gyda'r Criw CYW! Roedd pawb wrth eu boddau'n dawnsio a chanu ein hoff ganeuon. Diolch i bawb a ddaeth i ymuno a'r hwyl a diolch mawr hefyd i Cati, Elin, Dafydd a Griff am brynhawn o hwyl a chwerthin, gobeithio y cawn eich croesawu yn ôl i Rhiwlas yn fuan!


**L. Sturrs**
**a'i feibion**
sefydlwyd yn 1965
ADEILADWYR
Hen Iard Stesion,
Ffordd y Stesion, Bethesda
Ffôn: 600953
lsturrs@googlemail.com






Contractwyr Trydanol
**Jones & Whitehead Cyf**
Swyddfa Gofrestredig
Penrala, Tregarth, Bangor, Gwynedd, LL57 4AU
Ffôn: 01248 601257
Ffacs: 01248 601982
E-bost: info@jonesandwhitehead.co.uk

**SIÂN GWENLLIAN**
**AELOD O'R SENEDD DROS ARFON**
**CYSYLLTWCH:**
sian.gwenllian@senedd.cymru
01286 672 076
70 Stryd Fawr, Bangor
Senedd Cymru
Welsh Parliament

Talwyd costau'r cyhoeddiad hwn gan Gomisiwn y Senedd o gronfeydd cyhoeddus

# YSGOL ABERCASEG A PHEN-Y-BRYN

**Wythnos Cymru Cŵl Abercaseg**
Cawsom wythnos i'w chofio ar ôl y gwyliau! Fel rhan o'n thema Caru Cymru cynhaliwyd wythnos Cymru Cŵl. Roedd hi'n wythnos yn llawn o weithgareddau i hybu Cymreictod.

**Pêl-droed**: Gyda Chwpan y Byd ar y gorwel,dechreuodd yr wythnos gyda thîm hyfforddi Nathan Craig! Cafodd y plant fedalau am eu hymdrechion â'r wlad fuddugol yn cael cwpan y byd go iawn!

**Ioga a Drama**: Roedd pawb wedi blino yn lân erbyn canol yr wythnos,felly diolch byth am sesiynau ioga a drama Leisa Mererid! Cafodd pawb ymlacio a chyfle i fynegi eu hunain mewn arddull cwbl wahanol.

**Bardd Plant Cymru**: Pa ffordd well o ddatblygu geirfa a phatrymau iaith newydd na chael sesiwn barddoni gyda Casi Wyn, Bardd Plant Cymru. Llwyddwyd i greu cerddi yn seiliedig ar syniadau'r plant am Gymru.

**Rapio gyda Ed Holden**: Roedd y plant wrth eu boddau yn arbrofi gyda'u lleisiau gyda'r amryddawn Ed Holden. Sesiwn swnllyd yn llawn hwyl a chwerthin!

**Mr T**: Sesiwn swnllyd arall yn llawn mwynhad oedd y sesiwn cerdd gyda Gethin Thomas,y cerddor - nid y Pennaeth!!

Hoffai'r ysgol ddiolch i'r artistiaid am wythnos arbennig yn llawn profiadau bythgofiadwy.

**Jambori Cwpan y Byd Yr Urdd**: Roedd Yma o Hyd yn atsain dros yr ysgol pan ymunodd disgyblion Pen-y bryn ac Abercaseg gyda dros 230,300 o blant ddaeth at ei gilydd yn ddigidol ar gyfer Jambori Yr Urdd, cafwyd cyfle i ganu rhai o'r hen ffefrynnau yn ogystal â chaneuon newydd Cwpan y Byd. Gwisgodd bawb goch i gefnogi tîm Cymru a mwynhau gwledd o ddawnsio a chanu yng nghwmni criw Stwnsh gydag ymddangosiad arbennig gan Dafydd Iwan.

**Apel Bocsys Esgidiau T4U**: Ar ôl gwylio clipiau fidio gan T4U roedd disgyblion Pen-y-bryn yn awyddus i gefnogi'r apel i greu bocsys esgidiau yn llawn anrhegion ar gyfer plant llai ffodus eto eleni. Casglwyd 45 o focsys o'r ysgol yn barod i'w hanfon i Romania ac Wcrain.

**Clocsio**: Ar ôl morio canu gyda Dafydd Iwan, pa ffordd well o gael gwared o egni na chlocsio! Cafodd y plant fwynhad enfawr yng nghwmni Tudur. Roedd rhai hyd yn oed eisiau pâr o glocsiau gan Sion Corn!



**Gwyrdd Ni**:
Aeth 10 o ddisgyblion Blwyddyn 6 i Ysgol Dyffryn Ogwen i gyfrannu at brosiect Gwyrdd Ni. Roedden nhw'n llawn syniadau positif ar gyfer dyfodol y Dyffryn.

**Eisteddfod Dyffryn Ogwen**:
Roeddem fel ysgol yn falch o gael y cyfle i gefnogi Eisteddfod Dyffryn Ogwen unwaith eto ar ôl saib dros gyfnod y pandemig. Bu'r plant yn llefaru, canu a dawnsio ar y llwyfan yn ystod y diwrnod yn ogystal a chystadlu yn yr adran gwaith cartref.

**Diwrnod blasu Blwyddyn 6 yn Ysgol Dyffryn Ogwen**:
Treuliodd Blwyddyn 6 y diwrnod yn Ysgol Dyffryn Ogwen er mwyn cael blas o'r hyn fydd o'u blaenau ym Mlwyddyn 7. Cawsant gyfle i gyfansoddi cân gyda'r gŵr gwadd Emyr Gibson, chwarae rôl a chynnal dadl o blaid ac yn erbyn cynnal Cwpan y Byd yn Qatar yn ogystal a chreu darn o waith celf ar thema Cwpan y Byd. Diolch i'r staff a'r disgyblion am y croeso.

**Ffair Nadolig**:
Cynhaliwyd Ffair Nadolig gyda stondinau amrywiol ac ymweliad gan Siôn Corn gan Gyfeillion Ysgolion Pen-y-bryn ac Abercaseg yn Neuadd Ogwen. Fel rhan o'u gwaith mentergarwch bu bob dosbarth yn brysur yn creu cynyrch i'w werthu gan weithio allan y costau cynhyrchu, a phrisio'r nwyddau'n deg gan sicrhau eu bod hefyd yn gwneud elw. Diolch i bawb am gefnogi'r Ffair.



**Creadigol**: Fe ddatblygwyd sgiliau creadigol y plant,heb os! Daeth Elen Williams, artist lleol, i greu adennydd y ddraig goch gyda'r plant. Rydym yn edrych ymlaen yn arw i'w rhoi i fyny yn y Neuadd.



**Ymweld â Llyfrgell Bethesda**: Cafodd pob dosbarth gyfle i fynd i'r llyfrgell er mwyn ymaelodi a dewis dau lyfr i ddarllen adref. Yn ogystal a hyn cafwyd cyfle i wneud gweithgareddau o ddidoli llyfrau a'u trefnu a darganfod llyfrau penodol ar y silffoedd pryd oedd defnyddio'r wyddor yn sgil hanfodol. Diolch o galon i Marian a Ceri am y croeso cynnes, a cofiwch fynd yno i'w gweld yn gyson.

**Cefnogi Cymru yng Nghwpan y Byd**
Rydym wedi mwynhau gwneud tasgau yn seiliedig ar Gwpan y Byd fel rhan o'n gwaith thema y tymor hwn. Mae pob disgybl wedi cael tîm i'w ddilyn fel rhan o swîp eu dosbarth felly rydym wedi bod yn ymchwilio i mewn i'r gwledydd ac yn gwneud gweithgareddau rhifedd yn ymwneud ag arian, amser a data. Wrth gwrs rydym wedi bod yn dilyn tîm Cymru'n ofalus gan wneud posteri a chanfas fawr i ddangos ein cefnogaeth. Yr uchafbwynt oedd cael gwylio gêm Cymru yn erbyn Iran gyda disgyblion blwyddyn 3 a 4 yn gwylio'r gêm yn neuadd yr ysgol a blwyddyn 5 a 6 yn cael mynd i'w gwylio ar y sgrin fawr yn Neuadd Ogwen. Gwisgodd bawb goch a chwifio baneri Cymru gan fwynhau'r achlysur arbennig er gwaethaf y canlyniad siomedig.



# Iaith Pesda

## gan Mary Jones

Dyma ymateb a gefais gan Mrs Helen Williams, Llwynbleddyn i'r drafodaeth am **dân** y mis diwethaf. Sôn wnaeth hi am dân siafins. Pan rowch siafins ar y tân, sef yr hyn sydd ar ôl wedi llifio coedyn, ond nad ydy o yn flawd lli, mae'r tân yn fflamio'n sydyn ac yn fyw iawn, ond nid yw'n parhau yn hir. Weithiau bydd rhywun yn cychwyn ar waith arbennig yn awchus ond cyn hir yn blino ac mae'r syniad yn marw allan, rêl tân siafins.

Daeth ebost digon difyr gan Derfel Roberts, Carneddi yn holi am darddiad gair. Hen gymydog iddo oedd Mathew Williams neu Meth Foty. Arferai Meth alw ar Derfel dros wrych yr ardd. "Tyrd drosodd am gropar bach" sef llymaid neu fesur o wisgi. Yn amlach na pheidio ni fyddai'r mesur yn un bach a byddai Meth yn mynd i'r hwyl yn adrodd straeon am y chwarel a chymeriadau'r fro. Gyrrwr injan stêm yn y chwarel oedd cyn ymddeol a bu ef a'i briod Jennie yn cadw tafarn y Siôr hefyd (Y George Inn bryd hynny) ac yn un difyr ei sgwrs. Oes unrhyw un o'r darllenwyr tybed yn defnyddio neu wedi clywed y gair 'cropar' a beth tybed yw ei darddiad?

**Disgrifio rhywun sy'n dipyn o gymeriad**
A ninnau wedi sôn uchod am un cymeriad defnyddiwn nifer o wahanol eiriau i greu darlun ohonynt. 'Un garw ydi o', meddan ni neu 'Mae o'n gymeriad a hanner' ' Mae o/hi'n dipyn o gymêr' '......o dderyn' '......o bry' '......o gês' '......o gesyn'

**Tenau** Mae gynnon ni nifer o gymariaethau i ddisgrifio rywun neu rywbeth tenau. Dyma rai i chi: 'tena' 'fath a styllan' ( ystyllen – darn o bren hir, main); 'tena' fel crib'; 'fel rasal o dena'; ' fel papur risla o dena' ( rizla – papur rowlio sigarennau); 'tena fath a brwynan' '.....fath a weiran gaws'.

**Ambell air**
'Swpsâl' Am ryw reswm mae'r gair yma yn apelio ataf i. Mae dweud eich bod yn swpsâl yn golygu eich bod yn fwy na sâl. Gall hefyd ddisgrifio teimlad pan fyddwch, efallai, angen gwneud rhywbeth nad ydych eisiau a dweud 'Dwi'n swp sâl dim ond meddwl am y peth'. Mae llawer yn gallu bod yn swp efo annwyd hefyd. Mae'n siwr bod nifer fawr o eiriau yn cael eu defnyddio i gyfleu bod rhywun yn sâl, 'dim hanner da' 'dim yn gant y cant' 'yn giami' ac os yn gwella dywedir 'Dwi'n cael codi i ffenast'.

'Pwdin clwt' A hithau yn amser am y pwdin Dolig cofio am roli poli jam yn cael ei wneud ac wedyn ei roi mewn clwt a'i stemio oedd Gareth Jones, Pant Glas, fel mae llawer mae'n siwr.

'Sleifar' Dyma air sy'n disgrifio rhywbeth arbennig. Cofia Gareth hefyd i bobl sôn am sleifar o gar os oedd rhywun wedi cael car newydd smart.

**Moirio**
Dyma'r olaf am y tro o 'moirio'. Mae fy niolch yn fawr iawn i Gwyn Jones, Cil Caseg am ei gyfraniad ac mae wedi bod yn hynod ddifyr. Gobeithio y bydd iaith y pysgotwyr yn dal i'w chlywed yn y dyffryn am genedlaethau i ddod.



**Traed fflambo** Enw lleol am y pryf du sydd a choesau o liw oren/coch ac sy'n codi o'r grug mewn heidiau at ddiwedd Awst.

**Pluen blewyn het** Hen ffefryn o bluen wedi ei chawio gyda darn o bluen ddu estrys a oedd ond i'w cael bryd hynny o hetiau merched.

**Chwilen pen glec** Hen ffefryn arall wedi ei chawio i gynrhychioli chwilen ddu sy'n clecian pan yn symud ei phen yn ôl a blaen mewn ymgais i droi drosodd, wedi iddi lanio ar ei chefn yn y dŵr.

A dyma un stori fach gan Gwyn i orffen sy'n cynnwys y gair **poethal** sef 'gweddillion, neu goesau coed eithin a arferai gael eu casglu er mwyn gwneud tân.'

"Dwi'n cofio fy nhad yn cyfeirio at rhain. Roedd o'n dweud bod criw o hogia wedi dod at ei gilydd i brynu teciall, a'i guddio ar lan Ffynnon Lloer. Byddai'r person cyntaf i gyrraedd yn Ffynnon cychwyn tân efo poethal a berwi dwr yn y teciall fel bod pawb yn cael panad pan yn cyrraedd cyn dechrau moirio.

Cofiwch gysylltu â Mary Jones, 42 Erw Las, Bethesda LL57 3NN, Ffôn 07443047642 **maryeds@hotmail.co.uk**


**DAFYDD CADWALADR**
**Cynhyrchion Coedlannol**
Coed Tân - Llwythi bach a mawr
Ysglodion pren i'r ardd
Ffensio a thorri coed
Asiant system gwresogi trwy losgi coed
**01248 605207**

**MODURDY FFRYDLAS**
Profion M.O.T.
Perchennog
**A. Ll. Williams**
**Stryd Fawr, Bethesda**
**♦ PROFION M.O.T. ♦**
**GWASANAETH ♦ ATGYWEIRIO**
**♦TEIARS A BATRIS♦**
**GWASANAETH TORRI I LAWR NEU DDAMWAIN**
☎ 600723
Ffacs: 605068

**Arbenigwr mewn lloriau coed caled**
**A.G.L. Lloriau**
Arbenigwr mewn gosod a selio lloriau coed caled, adnewyddu lloriau gwreiddiol a chyweirio lloriau sydd wedi eu difrodi.
Andrew G. Lomozik B.A.
Ffôn: 01248 602117 Symudol: 07835487909

**CHRIS GRIFFITHS CYF**
**Trwsio ffenestri upvc, drysau, cloeau, bachau, twll llythyrau ac unedau gwydr wedi chwythu**

18 Carreg Felin
Llandegfan
Ynys Môn
LL59 5YB
☎ 01248 713 369 neu 07813 455653

# YSGOL BODFEURIG

**Glanllyn**
Mae'n debyg mai'r lle olaf fuasech chi'n meddwl mynd ym mis Tachwedd ydi i ganwio ar Lyn Tegid ond dyna ble fuodd plant blwyddyn 5 a 6 yn ystod eu tridiau yng Nglan Llyn! Er gwaethaf y tywydd sobor cafodd pawb amser gwych a phrofiadau arbennig yno. Diolch i Miss Davies am fynd hefyd i gadw trefn ar bawb!





**Cymru yng Nghwpan y Byd**
Yn dilyn y Jambori braf oedd cael gwylio gêm Cymru yn erbyn Iran yn yr ysgol. Roedd pawb yn teimlo balchder mawr wrth ganu'r anthem a gwylio Cymru yn chwarae er gwaethaf y canlyniad!

**Cynulliad Gwyrdd Ni**
Cafodd criw o blant yr ysgol gyfle arbennig y mis yma i fod yn rhan o Gynulliad Gwyrdd Ni. Daeth plant o bob cwr o'r dyffryn at ei gilydd yn Ysgol Dyffryn Ogwen i drafod eu gobeithion ar gyfer y dyffryn erbyn 2040. Roedd yn gyfle gwych i ddod i adnabod plant o ysgolion eraill yn ogystal a rhannu syniadau am leihau defnydd o danwydd ffosil a cynyddu defnydd o ynni adnewyddadwy. Diolch i bawb fu'n trefnu.

**Jambori'r Urdd**
Mae'n debyg fod pawb wedi clywed am fwrlwm Cwpan y Byd. Fel rhan o baratoadau ar gyfer Cwpan y Byd bu plant yr ysgol yn rhan o Jambori yr Urdd ble roeddent yn ymuno gyda miloedd o blant o bob cwr o Gymru i ganu caneuon – gan gynnwys Yma o Hyd gyda'r dyn ei hun, Dafydd Iwan! Profiad gwerth chweil i bob un.

**Plant Mewn Angen**
Diolch i blant blwyddyn 3 a 4 am drefnu diwrnod Plant Mewn Angen eleni. Daeth pawb i'r ysgol mewn pajamas gyda'u tegannau a llwyddwyd i gasglu bron i £200 tuag at yr elusen.

**T4U**
Gyda'r Nadolig yn prysur agosau mae'n amser meddwl am eraill wrth i ni baratoi. Er fod costau byw yn cynyddu roedd nifer o deuluoedd yr ysgol yn awyddus i greu bocsys esgidiau llawn anrhegion i blant llai ffodus. Diolch i'r tim o T4U ddaeth i gasglu'r bocsys ac fydd yn sicrhau eu bod yn cael eu pasio mlaen, eleni bydd ein bocsys yn mynd i blant yn Romania a'r Wcrain.





## Nature Days

Mae bod allan yn yr awyr iach wedi ei brofi yn dda i chi. Felly pan ddaeth y cyfle i dreulio diwrnod yn yr awyr agored yn dysgu roedd pawb wrth eu boddau. Daeth Dawn atom o 'Nature Days' a cafodd pawb brofiadau gwych yn mesur, defnyddio graddfa map a mesur cyflymder y gwynt.

# Tyrd am dro yn ein bro!

Rydym wedi cychwyn cyfres o deithiau cerdded yn ein bro sy'n digwydd dros y gaeaf yma.

Aeth criw o 8 ohonom am ein tro bach cyntaf drwy Barc Meurig ddydd Mercher, 23 Tachwedd. Dydi Parc Meurig ddim ond o flaen ein stepan drws, meddwch chi, ond pa mor aml ydan ni'n mynd i weld be sy'n newid o dymor i dymor? Roedd hi'n fore bendigedig ar ôl glaw trwm, a'r dŵr yn berwi'n ddu a gwyn yn yr afon, a'r dail yn dal ar y coed yn lliwgar.

Mae mynd am dro a bod yn yr awyr iach yn gallu codi'r galon, deffro atgofion ac yn gyffredinol wneud lles i ni. Pawb yn cytuno bod hi'n "ffordd dda o gwrdd â phobl yn yr awyr iach", a bod hi'n hyfryd i "gael panad braf gyda chwmni da."

Y daith nesaf fydd un fer arall ar droed Moelyci, a chawn banad a rhywbeth bach Nadoligaidd yng nghaffi Blas Lôn Las wedyn. Ar ôl y Nadolig, bydd ein teithiau yn mynd â ni i ddyffrynnoedd cymydog neu at lan y môr – weithiau mae'n braf dod allan o'r filltir sgwâr a gweld llefydd gwahanol! Bydd cerbyd ar gael i fynd â ni i'r cychwyn a dod â ni'n ôl.

Cerdded hamddenol a hawdd rhwng 20 munud ac awr fydd y teithiau i gyd, a bydd cyfle bob tro i gael panad neu ginio ysgafn mewn caffi ar y ffordd neu ar y diwedd. Mae'r teithiau am ddim, ond byddwch yn talu am ddiodydd a bwyd eich hunain, a byddwn yn gofyn am gyfraniad rhwng £2 a £4 y pen am y trip yn y cerbyd. (Mae croeso i chi wneud eich ffordd eich hun yno wrth gwrs.)

Os ydych yn dymuno dod efo ni yn y bws mini neu'r cerbyd cymunedol, cysylltwch i drefnu ymlaen llaw! Mae'r teithiau eu hunain yn dechrau am 11:00, a byddwn yn trafaelio tua hanner awr ynghynt. Cysylltwch â judith@ogwen.org neu 07967 115508 i gadw'ch lle yn y car, neu i gael gwybod lle mae'r cychwyn.

12 Rhagfyr 22: Moelyci. Cychwyn wrth gaffi Blas Lôn Las am 11:00
4 Ionawr 23: Capel Curig.
23 Ionawr 23: Llyn Padarn a'r Amgueddfa Lechi.
15 Chwefror 23: Pier Bangor a'r harbwr.
6 Mawrth 23: Promenâd Llanfairfechan a'r Pafiliwn.

**Nadolig Llawen i holl ddarllenwyr y Llais oddi wrth griw Partneriaeth Ogwen!**



# DIFYRION **DIGIDOL**

**Deian ap Rhisiart**

Y mis hwn, rwyf am drafod un ffordd hwylus iawn a didraffeth o gyrraedd gwefan benodol ar eich ffôn neu dabled heb orfod teipio ei chyfeiriad yn llawn.

Ydych chi wedi sylwi ar gornel posteri neu docynnau rhyw gôd rhyfedd yr olwg? Ydych chi wedi meddwl beth yw pwynt y côd hwn? i ateb y cwestiwn, dyma beth sy'n cael ei alw'n gôd QR neu *Quick response* i roi ei enw llawn. Mae'r dull hwn wedi bodoli ers blynyddoedd, yn mynd a dod o ran poblogrwydd ond mae'r côd hwn wedi ennill ei blwyf fel ffordd hwylus o allu cael mynediad sydyn a diffwdan at wefan. Os ydych y tu allan yn yr awyr agored ac eisiau manylion pellach am ddigwyddiad neu weithgaredd, mae'n gyfleus ac yn hawdd. O ran gwella hygyrchedd i bobl sy'n cael trafferth teipio, mae QR yn ffordd wych o allu osgoi y rhwystr hwnnw.

Y cwbl sydd angen i chi ei wneud yw agor camera eich ffôn a'i bwyntio at y côd a'i ddal yno am eiliad er mwyn ei sganio. Wedyn fe ddaw cyfeiriad y wefan i'r golwg, yna, pwyswch ar y ddolen ac fe fydd hynny yn eich arwain at y wefan.

Mae'n bosib canfod codau QR mewn pob math o sefyllfaoedd bellach ond yn tueddu i fod yn boblogaidd gyda thocynnau digwyddiadau, yn rhoi gwybodaeth am leoliad o bwys amgylcheddol, safleoedd hanesyddol neu atyniadau twristaidd a llawer iawn mwy. Mae rhai sefydliadau yn defnyddio codau QR i greu helfa drysor er enghraifft i blant. Felly cadwch lygaid am y côd QR ac ewch ati i'w sganio os ydych yn chwilfrydig.

Mae'n bosib hefyd i greu eich côd QR am ddim eich hun i hyrwyddo unrhyw fath o ddigwyddiad ar boster, er mwyn gallu tywys y defnyddiwr i ganfod manylion pellach ar eich gwefan Facebook. Mae yna sawl gwefan yn cynhyrchu codau QR am ddim e.e. https://www.the-qrcode-generator.com/ Er mwyn creu eich côd QR unigryw, mae'n rhaid copïo a phastio cyfeiriad llawn y wefan yn y blwch ac mae'r wefan uchod yn trosi'r cyfeiriad yn gôd QR yn awtomatig, gallwch wedyn ei lawrlwytho fel delwedd ffeil png/jpg i'w ddefnyddio mewn dogfen Photoshop neu Word er mwyn ei osod ar ddelwedd arall.

Mae'n bosib hefyd i greu codau QR sy'n storio neges destun yn cynnwys gwybodaeth bellach am ddigwyddiad, lleoliad, hanes neu rywogaeth ym myd natur. Mae llwybrau treftadaeth yn tueddu i gynnwys QR ar hysbysfwrdd i roi gwybodaeth ar hyd y daith am leoliadau pwysig neu sydd o ddiddordeb. Ond mae'n bosib hefyd i arwain y defnyddiwr at ddogfen PDF neu ap cysylltiedig. Mae'r potensial yn ddibendraw. Felly, beth am roi tro arni? Creuwch eich côd QR eich hun a'i osod mewn hysbyseb? Mae'n hwyluso mynediad i bawb ac yn arbed y drafferth i bobl orfod teipio'r cyfeiriad hir.

Os hoffech chi fel mudiad neu gymdeithas arweiniad pellach ar godau QR, neu'n awyddus i gael hyfforddiant am ddim ar wella ymgysylltiad cymunedol trwy'r cyfryngau cymdeithasol, cysylltwch gyda mi deian.apRhisiart@wales.coop

# Y CYFARWYDD

Y cyfarwydd sy'n gwneud y Dolig yn gyfnod mor arbennig. I Gristnogion, wrth gwrs, y newydd da am ddyfodiad Crist i'r byd, a'r cyfan a ddywed y Testament Newydd wrthym am stori ryfeddol ei eni ym Methlehem yw'r cyfarwydd hwnnw. Daw pob Dolig â'i gyfle newydd i adrodd yr hanes ac i ddathlu dyfodiad Duw yn ddyn i'n gwared oddi wrth ein pechodau a'n dwyn at Dduw. Nid yw'r stori'n newid, ac ni chollodd y neges ddim o'i gwerth na'i grym gyda threigl y canrifoedd. Eleni eto, boed i'r darlleniadau a'r carolau cyfarwydd ein gwefreiddio trwy ddwyn i'n sylw'r Iesu a ddaeth yn Geidwad i bawb sydd, trwy ras, yn ymddiried ynddo. Yr un fydd y stori'r Dolig hwn fel pob Dolig arall o'i flaen: Mair, Joseff, Bethlehem, llety, bugeiliaid, angylion, doethion, Herod, seren, preseb, anrhegion a'r cyhoeddiad mai'r babi newydd-anedig yw'r 'Crist, yr Arglwydd'. Yn y cyfarwydd y mae holl werth yr Ŵyl.

Yn y cyfarwydd hefyd y mae llawer o ramant yr Ŵyl, yn cynnwys y traddodiadau a'r defodau teuluol a sefydlwyd dros flynyddoedd. Daw'r un addurniadau allan eleni eto, i'w gosod yn eu lle arferol o amgylch y tŷ. Mae'r sachau a arferai ddal anrhegion y plant dros ddeng mlynedd ar hugain yn ôl yn dal i ddod i'r golwg, er bod llai o lawer yn cael ei roi ynddyn nhw erbyn hyn! Yn eu plith y mae'r bag plastig o siop W H Smith y mynnodd un o'r hogia'i gadw er i Siôn Corn un flwyddyn adael sach newydd mwy o lawer iddo! Ond gyda'r cyfarwydd hefyd y daw'r hiraeth: gweld y llawysgrifen ar y bocsys sy'n dal yr addurniadau, a chofio'r chwerthin fu un flwyddyn wedi i ni osod y stribed dal cardiau ar y wal â sled Siôn Corn ar y blaen a'r ceirw'n un rhes y tu ôl iddi. A'r sôn am sled yn f'atgoffa am yr ymdrechi i lusgo bwyd parti plant yr Ysgol Sul i'r capel trwy'r eira un Dolig.

Ac eleni, bydd yn Ddolig gwahanol yn yr Ysgol Sul yn Capel Coch gan na ddaw atom yr ymwelydd arbennig a ddaeth mor llawen a pharod yn ei wisg goch ers chwarter canrif. Mae'r cyfarwydd wedi mynd, a'r hiraeth yn fawr a'r cydymdeimlad â'i deulu'n ddwys ar drothwy Dolig gwahanol ac anghyfarwydd. Ond yn yr hiraeth, gallaf ddiolch fod Shaun nid yn unig wedi'm hatgoffa o ramant y Dolig a Siôn Corn ond wedi dangos i mi hefyd bod Iesu Grist yn gyfaill triw sy'n ddigon ar gyfer bywyd a marwolaeth.

Mae llawer i deulu mewn hiraeth a galar am anwyliaid a gollwyd ers y Nadolig diwethaf, a daw'r Ŵyl â'i phoen a'i thristwch i sawl teulu oherwydd absenoldeb y cyfarwydd. Ac mae'r hiraeth yn aros ymhell wedi'r Nadolig cyntaf wrth reswm, a'r Ŵyl bob blwyddyn yn amlygu'r colledion. Ym mhob galar a phoen, boed i bawb ohonom brofi gobaith yr Efengyl ynghyd â thangnefedd a hyd yn oed lawenydd y Nadolig o adnabod yr Immanuel, a thrwy hynny wybod i sicrwydd bod 'Duw gyda ni'.

# Pecyn Teuluoedd Dyffryn Gwyrdd

Gyda chostau byw a thanwydd yn cynyddu'n aruthrol, mae'r Dyffryn Gwyrdd mewn partneriaeth â Phrosiect Sero Net Gwynedd wedi derbyn cefnogaeth Elusen Ogwen i ddarparu Pecyn Teulu i drigolion yr ardal.

Bydd y pecyn, sy'n cynnwys nwyddau a gwybodaeth am leihau costau tanwydd a gwresogi cartrefi yn rhoi cymorth ymarferol i drigolion Dyffryn Ogwen fynd i'r afael â'r heriau costau byw. I ddechrau bydd pob un o blant y Dyffryn yn derbyn un o'r pecynnau arloesol i fynd adref efo nhw o'r ysgol cyn y Nadolig. Bydd pecynnau ar gael wedyn mewn digwyddiadau cymunedol yn y Dyffryn.

Mae'r gwaith hwn yn adeiladu ar y gwaith



Cyngor Ynni a wnaed gan staff y Dyffryn Gwyrdd yn 2021 ac yna'n ddiweddarach,eleni gan Brosiect Sero Net Gwynedd.

Mae gwaith y Dyffryn Gwyrdd o fewn Partneriaeth Ogwen wedi creu cyswllt gweithredol gydag unigolion a theuluoedd yn ogystal ag ysgolion yr ardal mewn sawl ffordd: – sesiynau galw'i fewn am gyngor ynni; - cyfarfodydd 'panad a biliau' cyflwyniadau i grwpiau ar arbed ynni i 'Griw Cefnfaes' yn y p'nawniau coffi; - ac ymweliadau ag ysgolion yr ardal i hyrwyddo negeseuon gwyrdd ac amgylcheddol.

Dros y misoedd diwethaf mae Prosiect Sero Net wedi arwain ar y gwaith arbed ynni drwy benodi dau Warden Ynni ar gyfer Dyffryn Ogwen. Maent wedi cysylltu'n eang ac wedi cynnal 80 o ymweliadau cartref i roi cyngor ar arbed ynni a lleihau costau. Mae Prosiect Sero Net yn brosiect ar y cyd rhwng amryw o bartneriaid megis Y Dref Werdd ym Mlaenau Ffestiniog, DEG (Datblygiadau Egni Gwledig), Siop Griffiths - Penygroes, Congl Meinciau – Botwnnog a chymdeithas dai Adra.

Gyda dyfodiad y creisis costau byw teimlwn fod y prosiect pecynnau teulu yn amserol tu hwnt ac rydym o'r farn mai megis dechrau ydym ar y gwaith hyn yn Nyffryn Ogwen. Dywedodd Huw Davies, Rheolwr y Dyffryn Gwyrdd;

"Ryda ni'n ddiolchgar iawn i Elusen Ogwen am eu cefnogaeth hael ar gyfer y Pecynnau Teulu fydd yn cael eu rhannu gyda disgyblion ysgolion Dyffryn Ogwen. Gwyddwn fod trigolion yr ardal yn teimlo effaith costau cynyddol ynni a gwresogi ac eu bod hefyd eisiau cyfrannu at y gwaith o leihau'n heffaith fel cymuned ar yr amgylchedd. Bydd darparu bylbiau ynni isel a thaflenni gwybodaeth yn fan cychwyn da ar gyfer y gwaith hwn".

PARTNERIAETH OGWEN

Ychwanegodd Ianto Shea, Warden Ynni Dyffryn Ogwen;

"Rydym yn cefnogi pobl yn Nyffryn Ogwen i leihau biliau ac arbed carbon. Rydym yn cynnig cyngor a chymorth am ddim i gartrefi i'w helpu i leihau eu biliau ynni drwy ddarparu:

- Cyngor ar sut i arbed arian ac ynni i leihau'r hyn rydych yn ei dalu, yn ogystal â chyngor i'ch helpu i ddeall eich tariffau biliau, ac ati.
- Darparu mesurau effeithlonrwydd ynni am ddim fel atalyddion drafft, bylbiau LED a mwy.
- Cyngor ar ba grantiau sydd ar gael i'ch helpu i wella'ch cartref a'i wneud mor effeithlon ag y gall fod.

### Y Gofod Gwneud

Gyda'r nosweithiau'n hir a thywyll be am drio rhywbeth gwahanol? Mae sesiynau ar gael bob nos Lun rhwng 4 ac 8pm yn y Gofod Gwneud yng Nghefnfaes. Mae'r sesiynau'n cael eu rhedeg gan Steve Willis (o Rachub gynt) ac mae cyfle i arbrofi gyda, a dysgu am beiriannau fel yr argraffydd 3D, torrwr laser, gwasg fygiau a pheiriannau gwnio. Cysylltwch a steve55willis@gmail.com am fwy o fanylion.

# YSGOL LLANLLECHID

### Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau gwresog i Mr Stephen Jones a'r teulu ar y newyddion hapus. Ganed Esmi Glain ar Dachwedd 23, ac rydym yn edrych ymlaen at gael ei gweld yn fuan. Mae Loti'r chwaer fawr wedi gwirioni, wrth reswm! Pob dymuniad da i chi fel teulu.

### Cynhadledd Heddwch

Bu'r Grwp Heddwch yn arwain gweithdy ar lein i ysgolion o Gymru ben baladr, dan arweiniad Mrs Llinos Wilson. Cafwyd gweithdy campus, a`r disgyblion yn ffodus o gael cyfle i rannu`r arferion da yn genedlaethol.

### Carol yr Wyl S4C

Llongyfarchiadau i'n disgyblion ar gyrraedd y deg uchaf drwy Gymru yn y gystadleuaeth hon. Bu cryn brysurdeb ar y dydd Iau arbennig hwnnw, pan ddaeth camerau S4C draw i ffilmio yn yr ysgol yn y bore, ac yna yn y chwarel yn ystod y prynhawn. Roedd y gwynt yn hyrddio yn y chwarel, ond perfformiodd y disgyblion yn wirioneddol dda, chwarae teg i bob un ohonynt. Bydd y côr yn ymddangos ar raglen Heno S4C yn ystod mis Rhagfyr – dyddiad i'w gadarnhau. Llawer o ddiolch i Ms Rhiannon Williams am gyfansoddi'r geiriau a'r alaw ac i Mrs Delyth Humphreys am ei help hithau. Edrychwn ymlaen yn eiddgar at gael rhannu'r garol hefo chi yn ein cyngerdd Nadolig ar Rhagfyr 19, yn Theatr Bryn Terfel, Pontio, pan fyddwn yn rhannu llwyfan gyda Chôr Meibion Penrhyn ac Erfyl Tomos Jones, baritôn.



## Eisteddfod Dyffryn Ogwen

Pleser oedd bod yn ôl yn neuadd Ysgol Dyffryn Ogwen yn cefnogi'r Eisteddfod eleni, yn dilyn y cyfnod hesb. Daeth myrdd o wobrau i'n hysgol – gweler rhestrau. Llawer o ddiolch i`n plantos arbennig, rhieni a`r holl staff am roi o`u hamser i gefnogi ein harferion a`n traddodiadau gorau. Gwerthfawrogwn y cyfan oll!

### Y Ddawns Flodau

Llongyfarchiadau i'r canlynol: Doti, Addison, Lili, Mili, Nanw, Catrin, Elsi, Evie, Lili, Nevaeh, Elsi-Ann, Jessica, Pyrsi ac Anna am gymryd rhan yn y Ddawns Flodau yn Eisteddfod Gadeiriol Dyffryn Ogwen. Roeddent oll yn werth eu gweld! Diolch i Miss Elin Beardsmore am eu hyfforddi. Llongyfarchiadau i adran y Gymraeg, Ysgol Dyffryn Ogwen am drefnu'r seremoni, ac i Mrs Meleri Davies ar ei llwyddiant.

### Jambori`r Urdd

Cawsom sbort ar ddiwrnod y Jambori, yn cyd-ganu 'Yma o Hyd' ar lein gyda Dafydd Iwan, a chriw Stwnsh S4C. Roedd llond ein neuadd o goch, a phawb yn canu a dawnsio, ac yn mwynhau cymryd rhan, gyda miloedd o ddisgyblion o Fôn i Fynwy. Profiad a fydd yn aros yn y côf am amser maith!

### Cic i Qatar

Bu rhai o`r disgyblion yn cymryd rhan yn yr ymgyrch oedd yn cael ei rhedeg gan BBC Radio Cymru gan Aled Hughes. Bu`r disgyblion yn llwyddiannus, a daeth baneri Cymru drwy`r post i`w anrhegu! Cafodd y disgyblion gyfle hefyd i gymryd rhan yn rhaglen Aled Hughes gyda`r Moniars ar y llwyfan ar fore`r gêm dyngedfennol rhwng Cymru a Lloegr. Da iawn blantos!

### Cwpan y Byd

Diolch i Dilwyn; bu`n fraint cael mynd i Neuadd Ogwen i wylio gem Cymru yn erbyn Iran. Er bod awyrgylch drydannol yno, wynebau hirion oedd yn gadael y Neuadd! Ond dyna ni, ymlaen mae Canan!

### Bocsys Nadolig

Llawer iawn o ddiolch i chi am gefnogi`r achos da hwn, sef elusen T4U, er mwyn codi calonnau plantos bach yn yr Iwcrain.

### Gwyrdd Ni

Bu`r ysgol yn cymryd rhan mewn gweithdy yn Ysgol Dyffryn Ogwen a chafwyd trafodaethau buddiol.

### Plant Mewn Angen

Codwyd £268.69 at yr achos da hwn.

### Map Uned Iaith Gwynedd

Mae Uned Iaith Cyngor Gwynedd wedi datblygu map rhyngweithiol er mwyn i glybiau a chymdeithasau cyfrwng Cymraeg Gwynedd allu hysbysebu eu gweithgareddau, ac er mwyn bod yn ffordd hwylus i bobl ddod o hyd i weithgareddau yn eu hardal leol. Rydym yn gofyn i unrhyw glybiau neu gymdeithasau sydd yn cyfarfod yn rheolaidd yng nghymunedau'r sir, ac sydd yn croesawu aelodau newydd, i gofnodi gwybodaeth ar y map. Does dim gwahaniaeth pwy yw'r gynulleidfa, dim ond eich bod yn cynnal gweithgareddau yn Gymraeg ac yn cyfarfod yn rheolaidd – bob wythnos neu bob mis – rhywle yng Ngwynedd. Byddem yn ddiolchgar iawn petai modd i chi rannu y linc isod gyda'ch canghennau neu swyddogion lleol a gofyn iddynt lwytho gwybodaeth am eich gweithgareddau ar y map.
Map Gweithgareddau (llyw.cymru)
Os bydd unrhyw broblemau efo mewnbynnu gwybodaeth, cysylltwch efo ni ar iaith@gwynedd.llyw.cymru



## Gwobrau Gymnasteg

Llongyfarchiadau i Tes ar ei llwyddiant ym myd gymnasteg! Cymaint o fedalau! Da iawn!



**Baner Werdd**

Llongyfarchiadau i`r disgyblion am eu gwaith da yn ymwneud â`r themau canlynol: lleihau gwastraff, dinasyddiaeth fyd eang, iechyd a lles, trafnidiaeth ac ati.

## Tregarth

**Olwen Hills** (Anti Olwen), 48 Bro Syr Ifor, Tregarth (600192)
**Angharad Williams**, 23 Ffordd Tanrhiw, Tregarth (601544)
**Gwenda Davies**, Llanfairpwll (gwendaglyn@hotmail.com)

Nadolig Llawen a Blwyddyn newydd werth chweil i bawb o ddarllenwyr Llais Ogwan gan drigolion pentref. Mwynhewch y Nadolig a phob iechyd a hapusrwydd yn 2023.

**Eglwys St Mair, Gelli**
Mae wedi bod yn braf yn Gelli yn ddiweddar. 'Rydym wedi cael gwasanaeth bob dydd Sul yn ystod mis Tachwedd, a byddwn yn cael ym mis Rhagfyr hefyd. Hyn am y tro cyntaf ers cyn Covid!

Diolch yn fawr i'r rhai wnaeth cefnogi'r Te Bach ddiwedd Tachwedd. Mae cael gweithgareddau codi arian yn hanfodol i gynnal a chadw'r eglwys.

Os ydych angen unrhyw wybodaeth am drefnu bedydd, priodas, angladd neu unrhyw fater arall, cysylltwch a'r ficer, y Parch. Dr. Gareth Lloyd ar 07847125225.

Cadwch olwg ar hysbysfwrdd yr eglwys am ddigwyddiadau a gwasanaethau.

*Llwyddiant gyda'r delyn*
Llongyfarchiadau mawr i Gwenno Grug Roberts, Fferm Dob, Tregarth, am gipio yr ail wobr yn y gystadleuaeth chwarae'r delyn dan 19 oed yng Ngŵyl Gerdd Dant Bro Nansi 2022 a gynhaliwyd yn Llanfyllin ym Mis Tachwedd.

Daeth yr ail wobr i Gwenno hefyd yn Eisteddfod Dyffryn Ogwen yn y gystadleuaeth offerynnol agored. Gwych Gwenno.

*Gwaeledd*
I bawb sydd ddim yn teimlo'n rhy dda yn ystod y tywydd oer yma anfonwn ein cofion atoch. Mae'r pla cofid yn dal o gwmpas ac amryw eraill yn dioddef adre, mewn ysbyty a chartrefi gofal. Rhowch wybod i ni os oes rhywun o'r teulu mewn ysbyty.

Bu Ann Hughes, Ffordd Tanrhiw yn Ysbyty Gwynedd yn ddiweddar a da deall ei bod adre. Gwellhad buan Ann.

*Genedigaeth*
Llongyfarchiadau i Olga a Haydn Davies, Hen Berllan, Dob. Maent yn Hen Nain a Thaid ers rhai wythnosau i Mari Lois ym Methesda. Ganed y fechan i Carwyn a'i bartner ac mae Carwyn yn wyr i Haydn ac Olga. Llongyfarchiadau mawr i chi gyd fel teulu.

*Profedigaeth*
Daeth y newyddion trist am farwolaeth Colin Bates ar Hydref 29, gynt o Bro Derfel, Tregarth a bellach yn byw yn Hightown, Lerpwl. Anfonwn ein cydymdeimlad llwyraf gyda'i wraig Margaret, yr hogiau Tony, Alan a Michael a'r holl deulu yn eu profedigaeth.

*Merched y Wawr, Cangen Tregarth*
Er gwaethaf y tywydd garw daeth criw da ynghyd i festri capel Shiloh Newydd , Nos Lun, Tachwedd 7, i wrando ar gyflwyniad diddorol Mr Paul Thomas, pennaeth ysgol Porth y Felin, Conwy. Mae Christne Morris Jones, un o aelodau'r gangen, yn athrawes yn ei ysgol ac roedd hi'n awyddus i'w gael draw i Dregarth i adrodd ei stori anhygoel o gerdded i fyny i gopa mynydd uchaf cyfandir Affrica, sef Kilimanjaro, gan gasglu dros £15,000 at Ymchwil Cancr Cymru.

Ni chawsom ein siomi! Drwy gyfres o luniau a fidios diddorol aeth Paul a ni ar daith i fyny'r mynydd. Roedd yn ddifyr gweld sut oedd y tim o bobol oedd yn cynorthwyo'r cerddwyr yn cario'r offer i fyny mewn bagiau ar eu cefnau ac yn ei wneud i edrych edrych mor hawdd. Mor braf oedd gweld pawb yn mwynhau pryd o gyw iar a thatws ar ochr y mynydd !

Er mor anodd a heriol oedd y daith i Paul a gweddill y tim roedd y balchder a'r hapusrwydd i'w weld yn amlwg wrth iddynt sefyll ar y copa. Diolchwyd i Paul am noson arbennig o ddifyr ac am ddod atom i'r gangen ar noson mor egar.

Enillydd cystadleuaeth cwpan Merched Perthi y mis yma oedd Alison Carden gyda bowlen crochenwaith fach hyfryd Affricanaidd. Mae hanes difyr iawn i'r fowlen. Roedd mab Alison, Hedd, wedi treulio mis mewn ysbyty yn Lesotho yn ystod ei hyfforddiant meddygol ac wedi cymeryd y cyfle cyn dod adref i deithio yn Affrica. Daeth y fowlen fach o Uganda, anrheg ddigon bychan i bacio mewn 'back pack' i'w fam!

Bydd cinio Nadolig y gangen Nos Lun, Rhagfyr 5 yn y Teras, Coleg y Brifysgol, ym Mangor.

Ni fydd y gangen yn cyfarfod ym Mis Ionawr, ond ar Chwefror 6 yn Festri Capel Shiloh Newydd bydd noson yng nghwmni yr artist a Dylunudd, Ann Catrin, Caernarfon ond

## Nant Ffrancon

**Dwy Record Brydeinig i'r Cneifiwr o Nant Ffrancon**
Mae Elfed Jackson, Braich Tŷ Du, Nant Ffrancon ynghyd â'i ffrind a chyd-gneifiwr Andy Wear o Wlâd yr Haf, wedi bod yn llwyddianus yn eu cais o greu Record Brydeinig Cneifio gyda Gwelleifiau.

Gan fod y ddau yn dathlu eu penblwyddi yn 60 eleni penderfynodd y ddau geisio am y record ac ar yr un pryd godi ymwybyddiaeth ac arian i ddwy elusen werthfawr yn y byd amaethyddol sef Sefydliad DPJ a Farming Community Network.

Ar ddydd Sadwrn, Medi 17 ar Fferm Fernhill ar fryniau'r Mendips, cneifiodd y ddau 330 o ddefaid mewn naw awr, record gyntaf o'i math yn Mhrydain. Cafodd Elfed hefyd y record unigol am gneifio 170 o ddefaid.

Dymuna Elfed ddiolch yn fawr iawn i drigolion yr ardal, unigolion, busnesau a sefydliadau lleol am eu cefnogaeth arianol tuag at noddi'r digwyddiad, a'r rhoddion hael tuag at y ddwy elusen.

Hefyd diolch yn fawr i deulu a ffrindiau a deithiodd lawr i Wlad yr Haf i'w helpu â'i gefnogi ar y diwrnod.






## Graddio, Teithio a Gweithio

Llongyfarchiadau mawr i Beca Jackson, Braich Tŷ Du, Nant Ffrancon ar ennill gradd Bsc mewn Amaethyddiaeth ym Mhrifysgol Aberystwyth.

Fis Awst aeth Beca i weithio i Denmark a Norwy lle bu yn llwyddiannus yn ennill y "Junior Shearing" yng Nghystadleuaeth Cneifio y Norgweigian Championships.

Erbyn hyn mae wedi mynd i weithio yn Seland Newydd. Pob lwc Beca!



gynt o Bryn Cul, Tregarth. Dewch draw i weld a gwrando a bydd cyfle i brynu eitemau o'i gwaith.

**Dychwelyd i'r Garnedd**

Dyna fydd hanes Llinos Angharad Davies, dim fel disgybl ond fel Pennaeth Ysgol Y Garnedd.

Cychwynodd fel disgybl yn yr ysgol yn 1980 gan dreulio cyfnod cynradd hapus iawn yna. Pryd hynny, roedd yn byw yn Nhalybont cyn symud i Eithinog, ond erbyn hyn yn byw yn Nhregarth gyda Mark ei gŵr a Gwion ei mab, heb anghofio Elsi'r ci!

Roedd Llinos yn aelod brwdfrydig iawn, ac yn barod iawn i gymryd rhan yn holl weithgareddau'r ysgol.

Fe fynychodd Ysgol Tryfan cyn symud ymlaen i Brifysgol Aberystwyth gan raddio yn y Gymraeg. Yna dilynodd gwrs i raddedigion a chymhwyso fel athrawes.

Cafodd ei swydd gyntaf yn Ysgol Esceifiog, Gaerwen ac yna cyfnod fel dirprwy bennaeth cyn ei phenodi'n bennaeth ar yr ysgol honno yn 2019.

Mae'n edrych ymlaen yn fawr iawn i'r sialens o arwain yr ysgol.

Mae Mark a Gwion Rhys, yn falch iawn ohoni ac yn yr un modd, ei rhieni, Wil a Meriel Parry.

**Pen-blwydd arbennig**

Pen-blwydd hapus iawn ar Ragfyr 17eg i'r cyn blismon Elwyn Parry, neu Elo, o Bro Derfel. Bydd yn dathlu'r 90. Llongyfarchiadau a mwynhewch y dathlu.

**Cydymdeimlo**

Anfonwn ein cydymdeimad at Linda Sewel, a'i theulu, Erw Faen. Bu farw mam Linda, sef Eleanor o Maes Bleddyn ym mis Tachwedd.

Cydymdeimlwn hefyd, gyda theulu Lesley Ann Prendergast, Rose Cottage, Hendyrpeg, Tregarth, fu farw  yn 75 oed ar Dachwedd 3. Roedd yn briod gyda'r diweddar artist Peter Prendergast ac anfonwn ein cofion at ei phlant a'i wyrion.

**Capel Shiloh Newydd**

Mae'r gwasanaethau yn Shiloh am 5 o'r gloch oni nodir yn wahanol. Croeso mawr i bawb droi mewn ar gyfer oedfa.

Rhagfyr 18: Gwasanaeth teulu y Nadolig
Rhagfyr 24: Noswyl y Nadolig Y Parchedig Ddoctor Ian Morris am 6 o'r gloch
Rhagfyr 25: Dim gwasanaeth
Ionawr 1: Peter Cutts, Porthaethwy
Ionawr 8: Olaf Davies, Llandegfan
Ionawr 15: Nerys Griffiths Caernarfon
Ionawr 22: Hugh Pritchard, Llangefni
Ionawr 29: Geraint Roberts, Llandegfan

Mae Drws Agored yn Shiloh Newydd bob bore Gwener rhwng 10 a 12 o'r gloch. Croeso mawr i bawb am sgwrs, cynhesrwydd a phaned. Mae criw da yn dod at ei gilydd. Beth am ymuno hefo ni?

Bore Gwener, Tachwedd 18, cawsom ddathlu penblwydd Wynn Williams, Tyddyn Dicwm, oedd yn dathlu yn 90 mlwydd oed ar y bore Gwener hwnnw. Pwy all gredu y peth! Dyma lun o Wynn ac Eirwen ei wraig yn y parti penblwydd yn Shiloh.



Roedd yn ddathliad dwbwl. Cafwyd cyfle i ddiolch i Wynn am gyfeilio ar yr organ am flynyddoedd lawer a diolch i Eirwen am roi dros 40 mlynedd o wasanaeth fel trysorydd y capel. Mae bellach wedi trosglwyddo y swydd i Hefin Williams, Rhiwlas a diolchwn o waelod calon i Hefin am ymgymryd a'r gwaith. Dymunwn fel aelodau ddiolch o galon i Wynn ac Eirwen am roi oes o wasanaeth yn y capel yma yn Nhregarth.

Ond nid yw Wynn yn rhoi'r gorau iddi ar yr organ. Bydd yn rhoi datganiad arbennig iawn  Nos Sul, Rhagfyr 18. Os am wledd dewch draw i'r oedfa deulu pe ond i wrando ar Wynn.

Rydym yn hynod ffodus i gael organydd newydd i gydweithio hefo Wynn sef Einir Wyn Willimas, Rhiwlas. Diolch Einir am rannu'r baich .

Diolchwn i bob aelod am eu cyfraniad at y Banc Bwyd ac hefyd am y cyfraniad o degannau, llyfrau, pensiliau lliw, sebonnau etc at Apel Casglu Anrhegion Nadolig a drefnwyd gan Gweithredu dros Blant. Roedd eich cyfraniad yn wych eto eleni. Diolch yn fawr iawn!

## Y Gerlan

**Caren Brown**, Cilwern, 14 Ffordd Gerlan, Bethesda, LL57 3ST.
(01248 602509 / 07789 916166)
carenelaine@hotmail.com
**Linda Brown**, 1 Gwernydd, Gerlan, Bethesda, LL57 3TY. (01248 601526)

**Croeso Adref**

Croeso adref i Ann Williams, Stryd y Ffynnon, ar ôl cyfnod yn Ystybytai Walton ac Eryri. Da ni'n falch o glywed dy fod yn cryfhau mwy pob diwrnod ac yn gobeithio dy weld yn fuan o gwmpas y pentref.

**Brysia wella**

Gyrrwn ein cofion at Myfanwy Owen a gafodd lawdriniaeth ar ei llygaid yn ddiweddar. Gobeithio bod y driniaeth yn llwyddiant a dy fod yn mendio'n handi.

**Penblwydd arbennig**

Penblwydd hapus iawn i Ellen Edwards, Glanrafon, a fu'n dathlu pen-blwydd arbennig yn 60 yn ddiweddar. Gobeithio dy fod wedi cael dy sbwylio gan deulu a ffrindiau Ellen.

Bu dathlu draw yn Gwernydd hefyd wrth i Dianne Jones droi'n 40 a phryd o fwyd blasus yn Y Llechen i nodi'r achlysur. Penblwydd hapus arbennig iawn iti Dianne.

**Cydymdeimlo**

Trist iawn oedd clywed am farwolaeth Eurwen Morris, Y Garnedd Uchaf, Ffordd Abercaseg. 'Roedd Eurwen erbyn hyn yn byw mewn cartref ond bu farw'n dawel yn Ysbyty Gwynedd ar yr 22ain o Dachwedd yn 88 mlwydd oed. Gyrrwn ein cydymdeimlad yn fawr at Dafydd, ei gŵr, Sheila ei merch a Rhys ei llysfab. 'Roedd Eurwen hefyd yn fam yng nghyfraith i Elfyn ac yn nain gariadus i Ceri a Dion ac yn hen nain i Lili, Seren, Haf ac Enfys. Yn chwaer annwyl i Selwyn, Miriam ac Emrys a'r diweddar William a Gwyneth. Mae gen i atgofion cynnes iawn o Anti Eurwen ers yn ferch ifanc iawn a hefyd yng Nghapel Jerusalem lle 'roedd yn aelod ffyddlon iawn. Gyrrwn ein cofion atoch i gyd fel teulu.

Gyrrwn ein cydymdeimlad dwysaf at Olwen Vansittart, Stryd Uchaf, wedi iddi golli ei gŵr Richard Vansittart (Vans) ar y 26ain o Dachwedd. 'Roedd Vans wedi bod yn dioddef o gancr ers amser a bu farw'n dawel wrth dderbyn gofal yn Llandudno. Bu Vans yn gofalu am Tai Newyddion yn Nant Ffrancon am flynyddoedd ac wrth ei fodd yn gweithio yno. Cofion cynhesaf atat, Gamel, Gulliver, Gwen a'r teulu i gyd.

'Rydym wedi colli un o'r ardal, yn ddiweddar, sef Glenys Dore. Bu Glenys yn byw yn y Gerlan ers dros 70 mlynedd, nes iddi symud i fyw i Fangor - ond yn y Gerlan oedd ei chalon hi o hyd.  Roedd Glenys yn fam annwyl i Jamie a'r ddiweddar Sandra.Bu farw Glenys ar y 9fed o Dachwedd a chynhaliwyd ei chynhebrwng ar y 23 o Dachwedd yn y Gadeirlan ym Mangor.  Fe roddwyd ei llwch i orffwys ym mynwent yr Eglwys yng Nghoetmor gyda'i merch Sandra.Bydd colled fawr i ffrind gorau Glenys , Valmai Davies. Bu'r ddwy yn ffrindiau agos iawn am flynyddoedd lawer.  Bydd chwith mawr.

## OGWEN TERRACE, BETHESDA

# UN RHES, DAU DDEG DAU O DAI

gan Andre Lomozik

**Rhan 3**

**1 OGWEN TERRACE, BETHESDA**
**HUGH MORGAN JONES**

Hugh Morgan Jones oedd yn byw yn 1 Ogwen Terrace, Bethesda, gyda'i wraig Catherine, a anwyd yn Llangefni, a thri o'i blant, sef Richard, a anwyd yn 1854, Mary 1859, a Catherine 1861. Roedd y plant i gyd wedi eu geni yn mhlwyf Llanllechid. Ganwyd Hugh yng Nghaernarfon ac roedd yn grydd yn ôl ei alwedigaeth. Roedd Richard wedi dilyn ei dad ac yn gweithio fel prentis iddo yn y siop.

Cawn adroddiad yn *The North Wales Express* Mai 3, 1878: '*Brynteg Chapel, Bethesda --- The Committee are prepared to recieve Tenders for the erection of a Portico at the front and a Vestry room at the back of the above – named Chapel, together with the Construction of about 22 yards of new road leading from Carneddi-road to the premises of the Chapel. Plans and specifications to be seen at the shop of* ***Mr Hugh Jones****, 1 Ogwen-terrace, Betheasda. Tenders to be sent (sealed and endorsed) to the said Hugh Jones, on or before the 14th day of May next. They do not bind themselves to accept the lowest or any tender.*'

Erbyn cyfrifiad 1881 roedd Hugh, Catherine, Mary, a Catherine y ferch ieuengaf yn dal i fyw yn rhif 1 Ogwen Terrace. Roedd Richard y mab yno hefyd ond o dan y golofn galwedigaeth wedi ei nodi fel myfyriwr yng Nghaergrawnt.

Rhywbryd rhwng 1881 a 1891 bu i'r teulu symud i Lanfairpwllgwyngyll, Sir Fôn, ac ymgartrefu yn Column View, Llanfair P.G.. Yng nghyfrifiad 1891 mae Hugh yn cael ei nodi fel *retired shopkeeper*, ond nodir mai yn Llangefni y ganwyd ef, ac nid Caernarfon. Mae'n rhaid ei fod wedi gwneud bywoliaeth dda tra yn grydd ym Methesda gan fod y ddwy ferch, sef Mary a Catherine, yn cael eu nodi fel *assisting at home* o dan y colofn gwaith ar y cyfrifiad, roedd Mary yn 22 oed a Catherine yn 19.

Cawn adroddiad yn *Y Genedl Gymreig*, Mehefin 17, 1891 yn sôn am farwolaeth Hugh Morgan Jones. 'Mr Jones, Column View, Llanfair P.G. Bore Gwener diweddaf, ar ôl byr gystudd, bu farw Mr Hugh Morgan Jones, Column View, Llanfair P.G. Môn, yn 72 mlwydd oed. Cymerwyd ef yn glaf ddydd Mercher wythnos i'r diweddaf, ac er pob ymdrech gwaethygodd, ac ymadawodd a'r fuchedd hon bore Gwener, gan adael tystiolaeth ddiymwad o'i ôl ei fod wedi myned oddi wrth ei waith at ei wobr. Yr oedd yn ddiacon hynod ffyddlon a gweithgar gyda'r Methodistiaid Calfinaidd yn Llanfair P.G; ac wedi gwasanaethu fel diacon am 27 mlynedd. Yr oedd yn aelod a Gyfarfodydd Misol Môn ac Arfon; yn ddyn hynaws a charedig, a theimlir colled gyffredinol ar ei ôl. Yn Llanfair amlygid y cydymdeimlad llwyraf â'r teulu galarus yn eu profedigaeth annisgwyliadwy. Gadawodd weddw, un mab sef y Parch R. Morgan Jones M.A; Caergybi, a merched i alaru ar ei ôl. Cymer yr angladd yr hwn fydd yn un cyhoeddus le heddiw (dydd Mercher), yn Eglwys Llanfair. Bwriedir cynnal gwasanaeth am chwarter wedi un o'r gloch yn addoldy y Methodistiaid.'

Mae'r Parch. Richard Morgan Jones, mab Hugh Morgan Jones, yn weinidog ac yn byw yn Erianfa, Llanfairfechan yng nghyfrifiad 1901, gyda'i wraig Margaret C. 39 oed, Glynne M. 10 oed, Dilys 7 oed, Irfon 5 oed, Richard M. 3 oed, a Nora 1 oed.

Erbyn cyfrifiad 1891 roedd **John D. Williams** a'i deulu yn byw yn 1 Ogwen Terrace. Chwarelwr oedd John ond eto roedd ganddo forwyn yn gweithio iddo o'r enw Catherine Ellen Roberts, 15 oed. Roedd gan John a'i wraig Hannah, a anwyd yng Nghonwy, bedwar o blant, Elizabeth Wynne 9, Maggie Clara 6, Edith 4, a George David yn 10 mis oed.

Mae'n ymddangos bod gan Hannah ryw fath o fusnes hefyd, gan fod yna hysbyseb yn *The North Wales Express* 6 Tachwedd 1896 " (ac roedd yn rhedeg am rai wythnosau) *For good housmaids, waitressess, generals, nurses, etc. etc.; apply to Mrs J. D. Williams 1 Ogwen Terrace.*

Erbyn cyfrifiad 1901 roedd John, ei wraig a dau o'r plant yn byw yn rhif 13 Elfed Terrace, Bethesda. Roedd y ddwy ferch hynaf wedi gadael cartref ac roedd Maggie Clara yn gweithio fel morwyn yn siop Pont Tŵr.

Roedd John yn nodi ei fod wedi gadael y chwarel ac yn gweithio fel pobydd. Dyma adeg Streic Fawr Chwarel y Penrhyn 1900 - 1903 ac efallai ei fod wedi dod yn bobydd oherwydd hyn.

Mae cofnod yn ymddangos yn y *Caernarvon and Denbigh Herald*, Gorffennaf 6 1900, yn y golofn marwolaethau yn cyhoeddi marwolaeth Eunice May. '*Williams – June 29, 1900 Eunice May, beloved child of Mr & Mrs John Enoch Williams 1, Ogwen Terrace Bethesda aged 14 months*'. Felly mae'n bosib mai Enoch Williams a'i deulu a fu yn byw yn 1 Ogwen Terrace ar ôl i John D. Williams symud i Elfed Terrace.

Mae hanes arall i'w weld yn y *Caernarvon and Deibigh Herald*, Rhagfyr 20 1901, lle mae **John Enoch Williams**, yn cael ei enwi fel tyst yn y llys ym Mangor, mewn achos yn erbyn Thomas Owen a gyhuddwyd o ymddwyn yn afreolaidd a thanio gwn mewn lle cyhoeddus. Roedd John Enoch Williams, yn tystio ei fod wedi clywed y gwn yn cael ei danio yn ogystal â gweld y mwg o'r gwn ar ôl iddo gael ei danio, ond nad oedd yn gwybod pwy a daniodd y dryll.

Er bod John Enoch yn cael ei enwi fel person yn byw yn 1 Ogwen Terrace ym mis Gorffennaf 1900, nid oedd ei enw yn ymddangos yng nghyfrifiad 1901. Dim ond Elizabeth Williams a'r plant oedd yno, sef Lizzie Catherine Davies, 26 oed, Mary Williams, 17, a Samuel Williams, 7. Roedd Catherine Ellen Williams, perthynas i Elizabeth, yno hefyd ar noson y cyfrifiad, a thri lletywr sef Hughie John Williams, (Tregarth), William Ewart Williams (Tregarth), a Thomas J. Roberts (Bethesda) a oedd yn farbwr yn ôl ei alwedigaeth. Aeth Thomas J. Roberts yn ei flaen i sefydlu cwmni bysus porffor(Purple Motors) ac mae rhai o'i ddisgynyddion yn dal i fyw yn yr ardal. Diolch i Heulwen Roberts am yr wybodaeth am T.J.Roberts.

Roedd teulu Elizabeth wedi gadael 1 Ogwen Terrace erbyn cyfrifiad 1911 ac mae'n bosib ei bod hi wedi marw tua 1904. Roedd Samuel, y mab, wedi symud i lawr i dde Cymru ac yn byw yn 20 John St., Porth. Glam. ac yn gweithio mewn pwll glo. Yn byw yn yr un tŷ fel lletywr roedd un o'r enw J. E. Williams, 54 mlwydd oed ac yn weddw. Roedd yntau yn enedigol o Fethesda, ac mae'n bosib mai tad Samuel ydoedd.

Gŵr o'r enw **William H. Parry**, ei wraig Lizzie a'u mab Reginald W. Parry oedd yn byw yn 1 Ogwen Terrace erbyn cyfrifiad 1911. Chwarelwr oedd William ac roedd y teulu i gyd yn enedigol o Fethesda.

(i'w barhau)






# CHWILAIR



## CYLCHGRONAU

| | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| A | Y | R | A | D | F | Y | W | I | A | D | U | R | A | W | F | H | R | C | I |
| E | J | L | C | M | B | V | B | H | X | J | U | I | S | V | S | H | E | E | I |
| M | G | Y | C | E | N | A | D | W | R | V | H | M | D | W | H | U | Z | N | M |
| X | V | R | N | Y | T | N | E | L | B | I | W | A | R | H | T | A | D | N | A |
| D | D | A | N | A | P | A | U | Q | U | S | O | F | R | P | Y | Q | A | A | Z |
| G | R | R | H | C | U | M | W | N | O | Y | R | I | A | S | Z | U | R | D | T |
| F | D | D | X | U | P | W | R | H | C | Q | H | W | G | E | H | O | L | H | Y |
| E | E | D | G | E | O | M | H | E | P | T | T | I | C | D | B | B | Y | E | C |
| U | U | R | J | P | L | T | M | I | V | V | E | D | D | C | B | B | N | D | F |
| R | F | O | W | G | J | V | I | I | R | R | R | R | X | I | M | H | Y | D | T |
| T | O | S | K | I | O | P | W | R | M | C | E | M | R | K | C | B | D | O | R |
| C | L | X | V | R | H | Y | H | Y | S | C | T | O | M | R | E | F | D | Y | J |
| D | I | Z | H | B | C | T | C | W | U | O | D | S | C | R | A | I | X | N | I |
| L | A | X | J | J | M | R | I | A | B | D | W | T | E | X | M | D | X | K | F |
| U | G | P | C | Q | W | L | D | E | R | Y | O | I | L | F | E | R | Z | Q | R |
| O | U | C | T | B | Y | O | D | E | W | G | W | S | L | Z | E | B | E | A | J |
| K | B | J | E | W | L | C | C | L | N | G | L | R | V | O | G | J | P | W | P |
| G | Y | D | H | B | S | Y | O | W | J | J | Y | Q | U | L | F | S | V | T | X |
| E | N | U | G | H | S | L | Z | E | A | F | X | I | W | T | Z | H | K | V | A |
| U | G | B | N | K | A | D | S | I | K | O | G | D | H | B | S | I | U | R | O |

Yn y Chwilair mis yma mae enw deuddeg CYLCHGRAWN o blith 450, a ymddangosodd rhwng 1735 a 2007 i chwi eu darganfod. Maent i gyd yn cael eu gwarchod yn ddiogel yn Lyfrgell Genedlaethol Cymru. Mae un ohonynt gyda theitl byr iawn, dim ond pedair llythyren, ac yn dechrau gyda'r llythyren **H**. A oes modd i chwi ddod o hyd iddynt? (Mae LL, CH, DD, TH, acyb yn **un** llythyren yn y Gymraeg, ond i bwrpas y Chwilair dangosir hwynt fel dwy lythyren ar wahân).

Atebion gydag enw a chyfeiriad i Andre Lomozik, Zakopane, 7 Rhos y coed, Bethesda, Bangor, Gwynedd LL57 3NW, erbyn 30 Rhagfyr 2022. Bydd gwobr o £10 i'r enw cyntaf allan o'r het. Os na fydd unrhyw un wedi canfod y deuddeg, yna'r rhif agosaf fydd yn cael y wobr. **Cofiwch nid oes angen anfon tudalen y Chwilair o'r Llais i fewn i mi, bydd yr atebion ar ddarn o bapur neu gerdyn yn iawn**.

Roedd eich atebion ar gyfer chwilair Hydref, yn gywir Doris Shaw, ond yn anffodus roeddynt dridiau yn hwyr yn cyrraedd trwy'r blwch post.


Rwyf yn dymuno Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb sydd wedi rhoi cynnig ar y Chwilair tros y flwyddyn, a chofiwch beidio gorfwyta tros yr wŷl. Nifer fawr ohonoch wedi darganfod Dinbych yn lle DINBYCH Y PYSGOD, ac hefyd Mynydd yn hytrach nag UWCHMYNYDD, felly byddwch yn ofalus gan fod mwy nag un gair yn gallu bod yn yr ateb.

**Dyma atebion Chwilair Tachwedd:** Dinbych y Pysgod; Felindre; Porth Mawr; Rhiwlas; Sain Ffagan; Traeth Coch; Traeth Lafan; Tŷ Ddewi; Uwchmynydd; Wrecsam; Ynys Lawd; Yr Eglwys Newydd.

**Dyma enwau'r rhai a gafodd yr atebion cywir:** Elizabeth Buckley, Tregarth; Rosemary Williams, Tregarth; Eirwen Owen, Erw Las; Gwenda Bowen, Gerlan; Olive Williams, Maes y Garnedd; Marilyn Jones, Glanffrydlas; John Roberts, Pwllheli; Gwenda Roberts, Rhosmeirch; Nia Wyn Bagnall, Llandygai; Doris Shaw, Bangor; Gwen Davies, Tanysgafell Isaf.

**Enillydd Tachwedd oedd:** Olive Williams, Maes y Garnedd, Bethesda, Bangor, Gwynedd.

# CROESAIR



**AR DRAWS**

6 Tywydd garw (7)
7 Dant a dannedd ; gellir gwneud hyn i'r ddau (5)
8 Gyrru cyfarchion y tymor drwy'r post (5)
10 O gae chwyn blêr ceir llawer mwy o ysgall a dail tafol (7)
12 Bodio (6)
13 Rhoist o, y twrci, yn y popty poeth (6)
15 Cornel sy'n mesur llai na 90° (3,3)
17 Gofalwch fod hon yn lân rhag i'r dyn coch a'i sach faeddu (1,5)
20 Ni fedrir talu llai (7)
22 Gofalwch fod hwn yn oer rhag i'r dyn coch a'i sach losgi (1,4)
24 Ebychu wrth weld y dyn coch a'i nwyddau (5)
25 Efallai y daw Santa Clos i de efo danteithion melys, blasus (7)

**I LAWR**

1 O'i bwyso, mae'n drwm fel craig o dros y ffin (4)
2 Mor dda emyn sy'n moli'r gallu i ddisgwyl yn dawel a goddefgar (6)
3 '- - - - - bys' i gyhuddo (5)
4 Mi wnes i wirioni a mopio (6)
5 Amser y plygain (4)
8 Mynd i'r borfa i weld sut mae pethau'n gweithio ac yn llwyddo (7)
9 Yn rheolaidd, ddeuddeg gwaith y flwyddyn, 'yn - - - - -' (5)
11 Gallai parti neu ginio 'Dolig fod yn gyfeddach gormodol fel hyn (7)
14 Cyfnod i ddathlu'r Nadolig (5)
16 Cael y felan i bobi bara (6)
18 Canu hyfryd noswyl y Nadolig (6)
19 Ynghanol (5)
21 '- - - - charw', hanfodion Sion Corn (3,1)
23 "Ac - - - - fwyn Jwdea'n dwyn, Ei miwsig atat ti" *carol adnabyddus* (4)


**SIOP OGWEN**

yn cynnig gwasanaeth


**CLIC A CHASGLU**

Llawer o Nwyddau Newydd
gan Grefftwyr Newydd
wedi cyrraedd y siop

Hefyd
Llu o gardiau cyfarch ar gyfer pob achlysur. Cysylltwch â'r siop ar yffôn **07394 905881**

neu E-bost siop@ogwen.org
i drafod beth sydd ar gael ac i wneud trefniadau casglu a thalu

**CEFNOGWCH WASANAETH LLEOL**




**ATEBION CROESAIR TACHWEDD 2022**

**AR DRAWS** 1 Adfail, 5 Hesg, 9 Tysilio, 10 Wcrain, 11 Llyfr Mawl, 12 Eryrod, 15 Darnio, 18 Dros Afon, 20 Ffermdy, 22 Meillion, 23 Aros, 24 Gadara

**I LAWR** 2 Datrys, 3 Amserlen, 4 Lolfa, 6 Egyr, 7 Gwrido, 8 Powlen/Bowlen, 13 Ysgariad, 14 Codymu, 16 Agenda, 17 Poenwr, 19 Oriog, 21 Mudo

Cliw 6 I Lawr a drechodd nifer sylweddol ohonoch. 'Egyr' yw'r ateb cywir, fel yn yr emyn "Pan egyr drws fy Nuw", neu "pan egyr ei lygaid". Cafwyd 'egor' ac 'eger' yn atebion anghywir. Hefyd cafwyd 'ageena' yn lle'r ateb cywir 'agenda'. Gobeithio nad yw'r streic wedi amharu ar eich trefniadau postio, ac y ceir cytundeb pan 'egyr' y trafodaethau unwaith eto efo'r undebau !

Dyma'r rhai a anfonodd atebion cywir : Gareth Oliver, Dulcie Roberts, Tregarth; Doris Shaw, Gaynor Elis-Williams, Bethesda; Lowri Evans, Llanllechid; Dilys W. Griffith, Abergele; Gwenda Roberts, Rhosmeirch; Dilys Parry, Rhiwlas; Emrys Griffiths, Rhosgadfan

Ond ar y brig y tro hwn y mae Gwenda Roberts, Gorwel Deg, Rhosmeirch, Ynys Môn LL77 7SJ ac iddi hi yr aiff y wobr. Da iawn chi !

Diolch o galon i'r rhai anfonodd gyfarchion Nadolig, a dymunaf innau Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bob un ohonoch chwithau.



Atebion erbyn 6ed, Ionawr 2023 **fan bellaf** *(ni ellir ystyried y rhai sy'n cyrraedd yn hwyrach)* i 'Croesair Rhagfyr', Bron Eryri, 12 Garneddwen, Bethesda, Gwynedd LL57 3PD